

**Ymgynghoriad ar reoli pryderon ynghylch
gweithwyr fferyllol proffesiynol – ein
strategaeth ar gyfer newid: adroddiad
dadansoddi**



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	1
Cefndir.....	1
Materion allweddol a gododd mewn ymatebion	1
Effaith y newidiadau arfaethedig	5
Cyflwyniad.....	7
1. Cefndir polisi.....	7
Dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad a gweithgareddau ymgysylltu	8
2. Amcanion Strategol.....	8
3. Deilliannau strategol	12
4. Meysydd ymholi a'r prawf arfaethedig i benderfynu a ddylid cyfeirio pryder i gael ymchwiliad iddo	16
5. Darn adfyfyriol	19
6. Cyfryngu.....	22
7. Ein haddewidion gwasanaeth.....	24
8. Y rhwystrau a wynebwr gan bobl sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig yn ein proses addasrwydd i ymarfer	26
9. Gwrandawiriadau o bell	29
10. Datganiadau profiad personol.....	31
11. Deall profiadau pobl sydd wedi bod yn gysylltiedig â phryder	34
12. Ystyried y cyd-destun ehangach wrth asesu a rheoli pryderon	36
13. Gwella'r ffordd rydyn ni'n rhoi cymorth i gleifion a'r cyhoedd.....	37
14. Effaith y newidiadau arfaethedig ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol	40
15. Effaith y cynigion.....	42
Atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion drafft	45
Adran un: Nodau a deilliannau strategol.....	45
Adran dau: Ein cynigion a sut y byddwn yn eu cyflawni.....	46
Atodiad 2: Ynglŷn â'r ymgynghoriad.....	49

Trosolwg.....	49
Arolwg.....	49
Digwyddiadau i randdeiliaid	49
Atodiad 3: Ein dull dadansoddi ac adrodd.....	50
Trosolwg.....	50
Dadansoddiad meintiol.....	50
Dadansoddiad ansoddol	51
Strwythur yr arolwg ymgynghori	51
Atodiad 4: Proffil ymatebwyr: gan bwy y clywon ni	52
Categoriâu ymatebwyr	52
Proffil ymatebwyr unigol	52
Proffil ymatebwyr ar ran sefydliadau.....	54
Cwestiynau monitro	55
Atodiad 5: Effaith y newidiadau arfaethedig ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol	56
Atodiad 6: Sefydliadau	57
Atodiad 7: Cwestiynau'r ymgynghoriad	59
Adran un: Nodau a deilliannau strategol.....	59
Adran dau: Ein cynigion a sut y byddwn yn eu cyflawni.....	61
Atodiad 8: Ymchwil i brofiadau o ymwneud â phroses addasrwydd i ymarfer y CFfC	66
Cyflwyniad.....	66
Sylwadau cyffredin	66
Canfyddiadau o agweddau ar strategaeth rheoli pryderon y CFfC.....	67

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Rhwng Hydref 2020 ac Ionawr 2021, ymgynghoron ni ar ein strategaeth ddrafft ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. Yn benodol, gofynnwn ni am farn ar nifer o'r cynigion allweddol, gan gynnwys:

- nodau a deilliannau strategol
- dull newydd o asesu pryderon wedi iddyn nhw gael eu mynegi wrthon ni
- cyflwyno nifer o deilliannau, mwy hyblyg, i gwblhau achosion o bryder
- rhwystrau mae unigolion sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu
- gwella'r gwasanaeth a roddwn drwy weithio mewn ffordd sydd â phobl yn ganolog iddo
- rhannu arfer orau a dysgu gan eraill

Mae'r strategaeth yn cynnig gweithredu'n gyflym i ddiogelu cleifion pan fo angen hynny, gan hyrwyddo ac annog diwylliant dysgu, ar yr un pryd, sy'n caniatáu i weithwyr fferyllol proffesiynol fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a dychwelyd i ymarfer pan fo hynny'n briodol. Credwn y bydd hyn ein helpu i warchod y cyhoedd yn well a bod yn deg â gweithwyr fferyllol proffesiynol ar yr un pryd.

Mae'r strategaeth wedi cael ei dylanwadu gan yr hyn glywon ni drwy ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn hydref 2019, adborth mewnol a newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio. Bydd yn adeiladu ar welliannau rydyn ni eisoes wedi'u gwneud i'r ffordd rydyn ni'n rheoli pryderon. Bydd hefyd yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymadau yn y cynllun strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac mae hefyd yn cyfrannu at weledigaeth 2030.

Cynhalion ni'r ymgynghoriad drwy arolwg ar-lein, a gafodd 188 o ymatebion: 163 gan unigolion a 25 gan sefydliadau. Ymatebodd tri sefydliad drwy e-bost heb ddilyn y strwythur a nodwyd yn yr arolwg. Yn ogystal, cynhalion ni ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a dau grŵp ffocws cyhoeddus, y daeth 31 o unigolion a 34 o gynrychiolwyr sefydliadau iddyn nhw. Gwnaethom hefyd gomisiynu Community Research i gynnal ymchwil ar raddfa fach i brofiadau unigolion sydd wedi bod yn rhan o'n proses addasrwydd i ymarfer. Crynhoir canfyddiadau'r ymchwil hon yn [atodiad 8](#).

Materion allweddol a gododd mewn ymatebion

Barn ar ein nodau strategol

Cafodd y nodau strategol gefnogaeth gref yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y nodau'n briodol, a dim ond llond llaw o ymatebwyr oedd yn teimlo eu bod yn amhriodol.

Roedd rhyw chwarter o'r ymatebwyr o'r farn bod rhywbeth ar goll o'r nodau strategol neu fod angen eu haddasu. O'r ymatebwyr hyn, cyflwynodd llawer argymhellion penodol ar gyfer sut y gellid gwella'r nodau, gan gwmpasu ystod eang o syniadau. Roedd yr awgrymiadau a roddwyd amlaf yn cynnwys

ychwanegu datganiad o gefnogaeth i weithwyr fferyllol proffesiynol a newid y gair 'canfyddiad' yn nod strategol tri naill ai i 'ddiwylliant' neu 'ffocws'.

Ochr yn ochr â gwelliannau ac ychwanegiadau penodol, cododd ymatebwyr nifer o bwyntiau eraill mwy cyffredinol i'r CFFC eu hystyried. Yn fwyaf nodedig, manteisiodd llond llaw o ymatebwyr ar y cyfle hwn i bwysleisio pwysigrwydd ystyried y cyd-destun ehangach y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio ynddo wrth ddelio â phryderon. Anogodd nifer fach o ymatebwyr y CFFC i gefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd â phryderon wedi eu codi amdany'n nhw. Pwysleisiodd llond llaw o ymatebwyr hefyd y dylid dod â phryderon i ben yn brydlon.

Barn ar y deilliannau strategol

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn croesawu ein deilliannau strategol. Roedd mwyafrif sylweddol o blith yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y deilliannau'n briodol, a dim ond ychydig a nododd eu bod yn amhriodol.

Pan ofynnwyd a oedd angen gwelliannau neu newidiadau i'r deilliannau, roedd tua chwarter o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen. Nododd yr ymatebwyr hyn nifer o welliannau ac ychwanegiadau penodol, yn fwyaf nodedig y dylid diwygio'r deilliannau i gynnwys datganiad o gefnogaeth i weithwyr fferyllol proffesiynol ac ymrwymiad i ddwyn cyflogwyr i gyfrif.

Defnyddiodd ymatebwyr y cyfle hwn hefyd i dynnu sylw at ambell pwynt arall, mwy cyffredinol, i'w cadw mewn gof gennym. Er enghraifft, galwodd rhai ymatebwyr i'r CFFC ystyried gwir gymhellion achwynwyr wrth ddelio â phryderon. Holodd ymatebwyr hefyd sut y bydden ni'n mesur ein cynnydd yn erbyn y canlyniadau.

Barn ar feysydd ymholi a phrofi

Roedd ymatebwyr yn gefnogol iawn o'r meysydd ymholi arfaethedig i'w hystyried wrth dderbyn pryder am y tro cyntaf a'r prawf a fyddai'n dilyn yr ymholiadau hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y meysydd ymholi yn briodol, tra bo mwyafrif naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r prawf arfaethedig.

O'r ymatebwyr a adawodd adborth penagored, mynegodd nifer fawr eu bod yn cytuno'n gyffredinol â'r cynigion. Ar nodyn tebyg, pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod cynnal ymholiad cychwynnol trylwyr wrth dderbyn pryder am y tro cyntaf yn bwysig, gan nodi cefnogaeth i'r ymholiadau arfaethedig. Yn groes i hyn, awgrymodd nifer fach o ymatebwyr yn benodol sut y dylid addasu'r meysydd ymholi neu brawf. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylid dileu'r gair 'potensial' o'r prawf, gan ei fod yn eithaf amwys ac y gallai osod trothwy isel ar gyfer ymchwiliad.

Barn ar ddarnau adfyfyriol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon y byddai cynhyrchu darn adfyfyriol yn ganlyniad priodol ac effeithiol i rai pryderon. Roedd yr ymateb hwn yn aml yn seiliedig ar y farn y byddai datganiadau adfyfyriol yn caniatáu i weithwyr fferyllol proffesiynol fyfyrto a dysgu o'u camgymeriadau. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai darnau adfyfyriol hyd yn oed yn atal gwallau tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Roedd llond llaw o ymatebwyr yn teimlo nad oedd darnau adfyfyriol yn ffordd briodol o reoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd canfyddiad ymhlith llawer o'r ymatebwyr hyn na fyddai darnau adfyfyriol yn annog gwir fewnwelediad, myfyrto a dysgu. Yn yr un modd, awgrymodd rhai ohony'n nhw y gallai fod yn anodd penderfynu a oedd gwir fewnwelediad neu adfyfyrio wedi digwydd.

Roedd gan rai ymatebwyr farn lugoer am ddarnau adfyfyriol, ac yn awgrymu mai dim ond mewn rhai achosion y bydden nhw'n dderbyniol. Fodd bynnag, nid oedd consensws cryf ynghylch pa achosion yn union y byddai datganiadau adfyfyriol yn addas ar eu cyfer. Nododd ymatebwyr hefyd y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng defnyddio deunydd adfyfyriol ar gyfer addasrwydd i ymarfer ac aildilysu yng ngoleuni dysgu o achos Bawa-Garba.

Barn ar gyfryngu

Roedd mwyafrif bach o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y gallai cyfryngu fod yn rhan o'r gwaith o ddatrys pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. Ar y llaw arall, roedd llond llaw o ymatebwyr yn teimlo nad oedd cyfryngu'n briodol ar gyfer ein proses addasrwydd i ymarfer.

Wrth gytuno â'r cynigion, awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai cyfryngu'n ffordd ddefnyddiol o ymdrin â phryderon. Yn benodol, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai hybu cyd-ddealltwriaeth rhwng cleifion a gweithwyr fferyllol proffesiynol. Nodwyd hefyd y gallai cyfryngu fod yn ffordd gyflym ac effeithiol o ddelio â phryderon ac y byddai'n caniatáu i weithwyr proffesiynol adfyfyrio a dysgu.

Soniodd ymatebwyr hefyd am nifer o heriau posibl mewn perthynas â'r cynnig hwn. Dywedodd rhai ymatebwyr, er enghraifft, y byddai'n rhaid dewis y cyfryngwyr yn ofalus. Fodd bynnag, roedd barn ymatebwyr yn gwahaniaethu o ran y mathau o unigolyn neu sefydliadau a ddylai gyfryngu. Dadleuodd rhai hefyd mai dim ond ar gyfer mathau penodol o achosion y byddai cyfryngu'n briodol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y gallai cyfryngu fod yn briodol ar gyfer datrys cwynion, anghytundebau neu anghydfodau rhwng cleifion a gweithwyr fferyllol proffesiynol, ond nid ar gyfer pryderon sy'n awgrymu y gallai fod nam ar addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer.

O'r ychydig o ymatebwyr a fynegodd wrthwynebiad yn eu sylwadau, nododd rhai fod cyfryngu ac addasrwydd i ymarfer yn anghydnaws. Y rhesymeg a gafodd ei rhoi am y farn hon oedd bod addasrwydd i ymarfer yn anelu at ddiogelu'r cyhoedd a gweithredu er budd y cyhoedd, tra bo cyfryngu wedi'i gynllunio i ddatrys cwynion ac anghydfodau.

Barn ar yr addewidion gwasanaeth

At ei gilydd, cafodd yr addewidion gwasanaeth dderbyniad da gan ymatebwyr. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo bod yr addewidion gwasanaeth yn rhoi disgwyliadau clir o'r gwasanaeth y gallai pobl eu disgwyl gennym. At hynny, dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod naill ai'n cefnogi'r addewidion gwasanaeth neu fod yr addewidion wedi eu cyflwyno mewn ffordd glir a chryno. Yn benodol, cafodd yr ymrwymiad i neilltuo aelod penodol o staff i bob parti sy'n ymwneud â phryder a'r addewid i gyfleu amserlenni tebygol ar ddechrau ymchwiliad ei ganmol.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen rhyw fath o welliannau neu ychwanegiadau ar yr addewidion gwasanaeth. Argymhellodd llond llaw o ymatebwyr, er enghraifft, y dylid cynnwys esboniad clir o'r broses addasrwydd i ymarfer, fel bod y rhai sy'n gysylltiedig yn deall ein proses rheoli pryderon. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr hefyd fod angen i'r CFFC wir gyflawni'r addewidion hyn. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn nad yw ein gwasanaeth yn bodloni'r safonau a nodir yn yr addewidion ar hyn o bryd.

Barn ar rwystrau mae unigolion sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu wrth ymglymu

Ysgogodd y pwnc hwn ymateb amrywiol gan y rhai a fu'n rhan o'r ymgynghoriad. Dywedodd nifer fawr o ymatebwyr nad oedden nhw'n gwybod a oedd pobl oedd yn rhannu rhai nodweddion gwarchodedig yn wynebu rwystrau yn ein proses addasrwydd i ymarfer yn sgil y nodweddion hynny. Ar y llaw arall,

roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod unigolion a oedd yn rhannu nodweddion gwarchoddedig yn wynebu rhwystrau.

O'r rhai a adawodd sylwadau ar y pwnc hwn, canolbwyntiodd y mwyafrif llethol ar ragfarn a gwahaniaethu yn erbyn unigolion yn ein proses addasrwydd i ymarfer neu'r sector fferylliaeth yn ei chyfanrwydd, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr fferyllol proffesiynol o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig (BAME). Dywedodd rhai ymatebwyr, er enghraifft, fod cyfraddau atgyfeirio yn uwch ar gyfer gweithwyr proffesiynol o gefndir BAME neu fod y grŵp hwn wedi'i orgynrychioli yn ein proses ymchwiliadau.

Yn ogystal, argymhellodd rhai ymatebwyr ddulliau penodol o fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol neu ffyrdd o ddileu rhwystrau i'r grwpiau hyn yn fwy cyffredinol. Yn fwyaf nodedig, awgrymwyd y dylai cyfansoddiad staff y CFFC fod yn fwy amrywiol. Soniodd ymatebwyr hefyd am rai rhwystrau penodol i ymgysylltu o ran rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, megis normau a gwerthoedd diwylliannol.

Barn ar wrandawiadau o bell

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo y byddai gan wrandawiadau o bell fanteision i'r rhai oedd ynghlwm wrthyn nhw. Roedd rhai o'r manteision allweddol y soniodd ymatebwyr amdany'n nhw'n cynnwys hygyrchedd a hyblygrwydd gwrandawiadau o bell, a'r ffaith eu bod yn haws ymdrin â nhw. Soniwyd hefyd eu bod yn fwy cost-ffeithiol ac effeithlon o ran adnoddau, a fyddai o fudd i bawb dan sylw, gan gynnwys y CFFC.

Yn groes i hyn, nododd llawer o ymatebwyr y byddai gwrandawiadau o bell yn rhoi rhai unigolion dan anfantais, tra bo cyfran yr un mor fawr yn teimlo bod y fformat o bell yn peri risg i wrandawiad teg. Yn fwy penodol, roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai gwrandawiadau o bell lesteirio cyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu di-eiriau, rhwng y partion dan sylw. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y gallai materion technegol greu trafferth ac y gallai fod yn heriol asesu tystiolaeth gynhennus o bell.

Argymhellodd rhai ymatebwyr y dylai'r CFFC roi opsiwn i'r rhai sy'n ymwneud â gwrandawiadau eu gwneud wyneb yn wyneb neu o bell. Ar nodyn tebyg, rhybuddiodd llond llaw y byddai angen i ni wneud addasiadau priodol ar gyfer gwrandawiadau o bell, yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n wynebu heriau technegol, sy'n anghyfarwydd â'r broses neu sydd ag anabledd.

Barn ar ddatganiadau profiad personol

O ran y cynigion i gyflwyno datganiadau profiad personol, cymysg oedd yr ymatebion. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylen ni ystyried datganiadau profiad personol wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio i'w rhoi ar waith. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag ymatebwyr unigol, o farn groes i hyn.

Ar y cyfan, roedd y themâu a ddaeth i'r amlwg o'r sylwadau esboniadol ar y cynnig hwn yn gadarnhaol. Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau y byddai datganiadau profiad personol yn arf defnyddiol neu y byddai ganddynt rôl bwysig i'w chwarae ym mhroses addasrwydd i ymarfer y CFFC. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd mai dim ond o'u cymhwyso'n briodol neu i'r mathau cywir o achosion y byddai datganiadau profiad personol yn gweithio. Er enghraifft, roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn teimlo na fyddai datganiadau profiad personol yn ystyriaeth briodol wrth benderfynu ar ganlyniad achos.

Yn arwyddocaol, roedd gwrthwynebiad i ddatganiadau profiad personol hefyd yn amlwg yn y sylwadau. Cyflwynodd lleiafrif sylweddol o ymatebwyr ddadleuon yn erbyn cyflwyno datganiadau profiad personol. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr hyn, er enghraifft, y dylai addasrwydd i ymarfer fod yn seiliedig ar

ffeithiau a thystiolaeth, yn hytrach na datganiadau emosiynol. Soniodd ymatebwyr hefyd eu bod yn poeni am natur or-oddrychol datganiadau profiad personol.

Barn ar ddeall profiadau pobl sydd wedi bod yn gysylltiedig â phryder

Cafodd sawl dull penodol o sicrhau adborth gan gleifion a gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer eu cyflwyno gan ymatebwyr. Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai cyfweliadau a sgysiau, gan gynnwys galwadau ffôn, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a sgysiau fideo ar-lein, yn ffyrdd effeithiol o gasglu adborth. Ar y llaw arall, argymhellodd nifer fawr o ymatebwyr ffyrdd o gasglu adborth yn ysgrifenedig, megis ffurflenni adborth, holiaduron ac arolygon.

Yn ogystal â'r awgrymiadau hyn, anogodd rhai ymatebwyr y CFFC i gynnig dewis i unigolion wrth geisio adborth. Yn yr un modd, pwysleisiodd llond llaw bwysigrwydd bod adborth yn ddiennw neu'n cael ei gyrchu drwy drydydd parti.

Barn ar ddeall cyd-destun ehangach pryderon

Cafodd y cynnig i ystyried y cyd-destun ehangach wrth asesu a rheoli pryderon gefnogaeth enfawr gan ymatebwyr. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o'r farn y dylai'r cyd-destun ehangach fod yn ffactor arwyddocaol wrth asesu pryderon, a dim ond ychydig iawn a oedd naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r syniad hwn.

Cyflwynodd ymatebwyr nifer o resymau dros gefnogi ystyried y cyd-destun ehangach. Yn fwyaf nodedig, nodwyd y gall yr amgylcheddau y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio oddi mewn iddynt gael effaith sylweddol ar eu hymddygiad a'u hymarfer, neu hyd yn oed chwarae rhan allweddol yn y digwyddiad a gwallau a nodir mewn pryderon.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cyfle hwn i dynnu sylw at gyflogwyr a rheolwyr, gan awgrymu neu ddatgan yn glir y dylent gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu rôl mewn pryderon ac am sicrhau diogelwch cleifion.

Barn ar gefnogi cleifion a'r cyhoedd

Soniodd ymatebwyr am nifer o ffyrdd y gallen ni roi cymorth i gleifion a'r cyhoedd sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer. Yn benodol, argymhellodd rhai ymatebwyr y dylid datblygu a dosbarthu gwybodaeth i helpu i godi ymwybyddiaeth o addasrwydd i ymarfer. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi cymorth i'r rhai sy'n ymwneud â'n proses drwy ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys drwy gyflwyno gwelliannau cyffredinol i'r wefan. Nododd ymatebwyr hefyd fod lle i wella system bresennol y CFFC ar gyfer codi pryderon.

Effaith y newidiadau arfaethedig

Barn ar effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod a fyddai ein cynigion yn cael unrhyw effaith, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Yn arwyddocaol, ychydig iawn o ymatebwyr a nododd y byddai ein cynigion yn cael effaith negyddol ar unigolion sy'n rhannu unrhyw nodweddion gwarchoddedig.

O'r ymatebwyr a adawodd sylwadau esboniadol, roedd rhai'n dadlau y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Yn fwy penodol, nododd llawer o'r ymatebwyr hyn yn y byddai ein cynigion yn gyffredinol o fudd i'r holl grwpiau hyn, tra bo rhai gweithwyr proffesiynol unigol wedi sôn am weithwyr proffesiynol o gefndir BAME, gan honni y byddai'n

effeithio'n gadarnhaol arnyn nhw. Yn groes i hyn, awgrymodd llond llaw o ymatebwyr y byddai neu y gallai ein cynigion effeithio ar bawb yn yr un modd, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig.

Barn ar effaith ar unigolion neu grwpiau eraill

Yr ateb mwyaf cyffredin a roddodd ymatebwyr i'r cwestiwn meintiol ar y pwnc hwn oedd nad oedden nhw'n gwybod a fyddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill. Yr un nesaf mwyaf cyffredin oedd y byddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion neu grwpiau eraill.

Nododd ymatebwyr nifer o unigolion a grwpiau eraill yn y sylwadau a fyddai, neu a allai, ymelwa o'n cynigion, yn fwyaf nodedig gweithwyr fferyllol proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Dywedodd llond llaw o ymatebwyr hyd yn oed y byddai'r cynigion yn effeithio'n gadarnhaol ar bawb, gan gynnwys unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol. Yn groes i hyn, roedd rhai'n dadlau y gallent effeithio'n negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. O'r rhai a adawodd adborth penagored, fodd bynnag, y pwynt amlycaf a gododd oedd nad oedd yn bosibl barnu a fyddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol.

Cyflwyniad

1. Cefndir polisi

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol. Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa cofrestredig.

Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol mewn ffordd sy'n diogelu cleifion a'r cyhoedd yn well ond yn deg hefyd â gweithwyr fferyllol proffesiynol. Ond mae angen i'r dull hefyd alluogi gweithwyr proffesiynol i gyflawni'r safonau gofynnol, drwy roi cyfle iddyn nhw gywiro pethau a dysgu a gwella pan fydd yn iawn gwneud hynny. Gellir cyflawni rhai o'r newidiadau yn rhannol drwy newidiadau yn y gyfraith. Ond gall newidiadau i reoliadau fod yn araf, felly mae ein strategaeth yn nodi'r camau y gellir eu gweithredu nawr heb angen newidiadau deddfwriaethol.

Mae angen i ni ein herio ein hunain drwy ofyn cwestiynau sylfaenol ynghylch diben addasrwydd i ymarfer, a'r hyn y mae'n ei olygu i'r cyhoedd a ddiogelwn a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr. Felly, rydyn ni wedi datblygu strategaeth a fydd yn nodi'n glir yr hyn a wnawn yn y blynyddoedd nesaf.

Mae hyn yn rhan o'n rhaglen ar gyfer newid wrth i ni weithio tuag at ddiwygio deddfwriaethol a dechrau cyflawni Ein Gweledigaeth 2030. Mae hon yn weledigaeth ddeng mlynedd uchelgeisiol ar gyfer gofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach. Rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi ein cynllun strategol 2020–25. Mae hyn yn disgrifio'r gwaith rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn ystod y pum mlynedd nesaf i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth 10 mlynedd.

Mae'n gyfnod pwysig o ran sut mae rheoleiddwyr gofal iechyd yn rheoli pryderon addasrwydd i ymarfer, wrth i ni gymhwyso'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac edrych ymlaen at newidiadau yn y gyfraith i helpu i ddiwygio rheoleiddio. Mae gennym gyfle i adolygu rhannau o'n dull presennol a newid pethau er gwell. Rydyn ni eisoes wedi dechrau gwneud gwelliannau i'r ffordd rydyn ni'n rheoli pryderon. Rydyn ni am adeiladu ar y gwelliannau hyn i ddelio â'r materion ehangach rydyn ni wedi'u nodi drwy ein gwaith yn datblygu 'r strategaeth.

Ystyrir bod y broses addasrwydd i ymarfer yn rhy 'gyfreithlonaid' a gwrthwynebol o hyd. Mae'n anhyblyg ac yn adweithiol i raddau helaeth a'r angen yw iddo fod yn hyblyg ac yn rhagweithiol. I'r cleifion, y teuluoedd, y tystion a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw, gall y dull presennol fod yn ddryslyd, yn anghyson ac yn araf. I gyflogwyr, nid yw bob amser yn eglur pa bryderon y dylid eu cyfeirio at y rheoleiddiwr.

Rhaid inni ddeall yn well pam rydyn ni'n cael mwy o bryderon am weithwyr proffesiynol BAME nag y bydden ni'n ei ddisgwyl yn ystadegol. Hefyd, pan fyddwn yn ymdrin â phryder, mae angen i ni fod yn siŵr ein bod yn lleihau ac yn delio â'r risg o ragfarn bosibl wrth wneud penderfyniadau.

Mae ymchwiliadau i bryderon am weithwyr proffesiynol yn para amser hir a gallant fod yn rhwystredig i bawb dan sylw. Mae angen i ni wneud mwy o gynnydd o ran lleihau'r amser sydd ei angen i gwblhau achosion. Gall y ffordd rydyn ni'n cysylltu â phobl, a dull a thôn ein cyfathrebu, arwain at ganlyniadau anfwriadol megis effaith andwyol ar iechyd meddwl y bobl rydym yn ymchwilio iddynt. Gall pobl sy'n agored i niwed ei chael hi'n anodd cael cymorth.

I weld rhagor o fanylion am y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig, gweler [Atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion drafft](#).

Dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad a gweithgareddau ymgysylltu

Yn rhan hon yr adroddiad, mae'r tablau'n dangos lefel cytuno/anghytuno'r ymatebwyr i'r arolwg â'n newidiadau arfaethedig, neu'r agweddau yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylen ni eu haddasu. Dangosir nifer yr ymatebwyr ('N') a'u canran (%) ym mhob colofn. Mae colofn olaf pob tabl yn dangos barn holl ymatebwyr yr arolwg ('Cyfanswm N a %'). Dangosir ymatebion unigolion a sefydliadau ar wahân hefyd er mwyn gallu nodi unrhyw dueddiadau.

Gweler [Atodiad 2: Ynglŷn â'r ymgynghoriad](#) am fanylion yr arolwg ymgynghori a nifer yr ymatebion a ddaeth i law, ac [Atodiad 3: Ein dull o ddadansoddi ac adrodd](#) ar gyfer manylion llawn y dulliau a ddefnyddiwyd.

2. Amcanion Strategol

Ar dudalen 12, rydyn ni'n nodi pedwar amcan strategol a fydd yn llywio ein gwaith ac yn ein helpu i werthuso effaith y strategaeth. Mae trosolwg o'r amcanion strategol i'w weld [atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion drafft](#).

Tabl 1: Barn ar yr amcanion strategol

C1. O ystyried pob un o'r pedwar nod strategol, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eu bod yn briodol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	46 (28%)	8 (36%)	54 (29%)
Cytuno	91 (56%)	11 (50%)	102 (55%)
Ddim yn cytuno na'n anghytuno	14 (9%)	1 (5%)	15 (8%)
Anghytuno	5 (3%)	0 (0%)	5 (3%)
Anghytuno'n gryf	4 (2%)	1 (5%)	5 (3%)
Ddim yn gwybod	3 (2%)	1 (5%)	4 (2%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Tabl 2: Barn ynghylch a ddylid newid yr amcanion strategol neu a oes unrhyw beth ar goll

C2. Oes unrhyw beth ar goll o'r nodau strategol, neu unrhyw beth y dylid ei newid?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Oes	28 (23%)	11 (50%)	49 (26%)

C2. Oes unrhyw beth ar goll o'r nodau strategol, neu unrhyw beth y dylid ei newid?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Nac oes	91 (56%)	9 (41%)	100 (54%)
Ddim yn gwybod	34 (21%)	2 (9%)	36 (19%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Tabl 3: Barn ar ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau i'r amcanion strategol

C2a. Pa rai o'r nodau strategol canlynol sydd angen ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
<i>DS: o'r rhai a ymatebodd 'oes' i C2 (n = 49). Aml-ddewis - nid yw'r canrannau'n adio i fyny i 100%</i>			
Mae angen nodau ychwanegol	21 (55%)	6 (55%)	27 (55%)
Newid y canfyddiad o feio a chosbi i fod yn un agored sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella	13 (34%)	4 (36%)	17 (35%)
Bod ag agwedd sydd â phobl yn ganolog iddi ac sy'n deg, yn gynhwysol ac yn rhydd rhag camwahaniaethu a rhagfarn	11 (29%)	5 (45%)	16 (33%)
Ystyried cyd-destun a gweithio gydag eraill i ddelio â phroblemau yn y systemau fferylliaeth a gofal iechyd ehangach	9 (24%)	3 (27%)	12 (24%)
Cadw cleifion a'r cyhoedd yn ddiogel drwy ddefnyddio ein hystod lawn o ddulliau rheoleiddio i atal, rhagweld a datrys pryderon	8 (21%)	3 (27%)	11 (22%)
Cyfanswm N ymatebion	38	11	49

Mae Tabl 1 yn dangos bod mwyafrif helaeth yr holl ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y nodau strategol yn briodol (84%). I'r gwrthwyneb, roedd canran fach iawn o'r holl ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r nodau (5%).

Roedd dros hanner yr holl ymatebwyr (54%) yn teimlo nad oedd unrhyw beth ar goll, neu angen ei newid, yn yr amcanion strategol. Nododd tua chwarter yr holl ymatebwyr (26%) fod agweddau roedd angen eu newid neu oedd ar goll, gyda sefydliadau (50%) yn tynnu sylw at hyn yn gymesur amlach nag unigolion (23%).

Dim ond i'r rhai a ddywedodd yng nghwestiwn dau fod angen gwelliannau neu ychwanegiadau ar y nodau strategol y gofynnwyd pa nodau strategol yr oedden nhw'n yn teimlo bod angen newidiadau arnyn nhw (Tabl 3). O'r ymatebwyr hyn, dywedodd dros hanner fod angen nodau ychwanegol (55%), ac

roedd tua thraean yn teimlo bod angen ychwanegiadau neu ddiwygiadau pellach ar yr amcanion strategol '*Newid y canfyddiad o feio a chosbi i fod yn un agored sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella*' (35%) a '*Bod ag agwedd sydd â phobl yn ganolog iddi ac sy'n deg, yn gynhwysol ac yn rhydd rhag camwahaniaethu a rhagfarn*' (33%).

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd fod angen gwelliannau neu ychwanegiadau ar yr amcanion strategol roi disgrifiad byr o'r newidiadau roedden nhw'n credu eu bod yn angenrheidiol. Gadawodd rhyw chwarter o'r holl ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn ac o ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

2.1. Crynodeb o'r themâu

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol, gan gwmpasu ystod eang o bwyntiau a syniadau, lawer ohonynt yn ymwneud â chwestiynau dilynol neu'r strategaeth yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, daeth un thema flaenllaw i'r amlwg yn y sylwadau, sef ceisiadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau neu ychwanegiadau penodol i'r nodau strategol.

Mae'r dadansoddiad isod yn cyflwyno'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion, yn nhrefn nifer yr achosion, fel y rhestrir yma:

- Angen gwelliant neu ychwanegiad penodol
- Cefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol
- Mae prydlondeb wrth ddatrys pryderon yn hollbwysig
- Dylid ystyried y cyd-destun
- Sylwadau eraill.

2.2. Angen gwelliant neu ychwanegiad penodol

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn glir sut yr oedden nhw'n credu y dylid newid y nodau strategol, naill ai drwy welliannau neu ychwanegiadau. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin o lawer yn ymatebion y sefydliadau na'r ymatebwyr unigol.

Cynigiodd ymatebwyr ystod eang o welliannau neu ychwanegiadau penodol. Serch hynny, roedd nifer o themâu amlwg yn y sylwadau, sydd wedi eu nodi isod.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid diwygio'r amcanion i gynnwys datganiad o gefnogaeth i weithwyr fferyllol proffesiynol, naill ai i fodloni'r safonau neu pan fydd pryderon wedi eu codi amdany'n nhw.
- Dywedodd nifer fach o ymatebwyr fod defnyddio'r gair 'canfyddiad' yn y trydydd nod strategol yn anghywir ac y dylai naill ai 'diwylliant' neu 'ffocws' ei ddisodli.
- Argymhellodd ychydig o ymatebwyr ymrwymiad i gloi pryderon yn brydlon fel rhywbeth y dylid ei ychwanegu at y nodau.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai ychwanegu mwy o bwyslais ar gynnal ffydd y cyhoedd a chleifion mewn rheoleiddio fferylliaeth a fferylliaeth yn ychwanegiad gwerthfawr.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am ychwanegu cyfeiriad at gefnogi cleifion, y cyhoedd a gweithwyr fferyllol proffesiynol i godi pryderon gyda'r CFC at y nodau.

2.3. Dylid ystyried y cyd-destun

Tynnodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran fwy o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, sylw at bwysigrwydd ystyried y cyd-destun ehangach y mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio ynddo wrth asesu pryderon. Yn eu barn nhw, gall yr amgylchedd y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio ynddo, gan gynnwys y pwysau y maen nhw'n ei wynebu a'r prosesau y cânt eu cyfarwyddo i'w dilyn, fod yn ffactor pwysig o ran cyfrannu at ddigwyddiadau a chamgymeriadau, ac felly mae'n rhaid ei ystyried wrth adolygu pryderon. Awgrymodd rhai ymatebwyr hyd yn oed y dylai'r strategaeth roi mwy o bwyslais ar ystyried cyd-destun.

2.4. Cefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol

Yn ogystal â'r ceisiadau penodol am ychwanegu datganiad o gefnogaeth i weithwyr fferyllol proffesiynol at y nodau strategol, nododd nifer fach o ymatebwyr unigol yn teimlo'n fwy cyffredinol y dylai'r CFC gefnogi gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael pryderon wedi eu codi amdanynt. Er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r CFC ddiogelu gweithwyr fferyllol proffesiynol rhag achwynwyr maleisus neu honiadau di-sail, gan gynnwys cyflogwyr a allai geisio defnyddio'r broses addasrwydd i ymarfer fel arf disgyblu. Aeth un ymatebydd mor bell â dweud y dylai'r CFC weithio gyda gweithwyr proffesiynol i ddatrys y materion a godwyd mewn pryderon.

2.5. Mae prydlondeb wrth ddatrys pryderon yn hollbwysig

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, bwysigrwydd cwblhau pryderon yn brydlon. Roedd hyn yn ychwanegol at y rhai a oedd yn galw'n benodol am ychwanegu ymrwymiad i ddatrys pryderon yn brydlon at y nodau. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i dynnu sylw at yr angen i ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r rhai sy'n rhan o ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Dywedodd neu awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd fod ymchwiliadau amserol yn agwedd bwysig ar ddull addasrwydd i ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

2.6. Sylwadau eraill

Rhoddodd ymatebwyr nifer o sylwadau yn ychwanegol at y rhai a nodwyd uchod. Mae detholiad o'r themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion hyn i'w weld isod.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr neu ddweud yn gyffredinol y gallai'r CFC wneud mwy i gefnogi pobl yn y broses o godi pryderon, yn enwedig gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n adrodd am bryderon budd y cyhoedd.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r CFC ystyried gwir gymhellion y rhai sy'n codi pryderon yn erbyn gweithwyr fferyllol proffesiynol, gan y gallai achwynwyr fod â bwriad maleisus wrth godi pryderon.
- Nododd llawer o ymatebwyr o sefydliadau eu bod yn gyffredinol yn cefnogi un neu ragor o'r nodau strategol. Yn benodol, croesawyd uchelgais y CFC i ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn a sicrhau bod ei agwedd at addasrwydd i ymarfer yn deg, yn gynhwysol ac yn rhydd o ragfarn gan rai sefydliadau.
- Teimlai rhai ymatebwyr unigol y dylai cyflogwyr a pherchnogion fferyllfeydd gymryd mwy o gyfrifoldeb dros bryderon a godir am weithwyr fferyllol proffesiynol unigol. Yn eu barn nhw, mae cyflogwyr yn aml yn creu amgylcheddau pwysedd uchel a all arwain at godi pryderon gyda'r CFC.

- Dywedodd rhai ymatebwyr fod yn rhaid i'r CFFC ddangos mwy o drugaredd wrth ddelio â gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi cael pryderon wedi eu codi yn eu herbyn.
- Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd diogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd symud diwylliant rheoleiddio fferylliaeth a fferylliaeth yn gyffredinol o fod yn un o feio a chosbi i fod yn un o ddysgu a gwella.

3. Deilliannau strategol

Ar dudalen 12 y **ddogfen ymgynghori**, rydyn ni'n nodi pedwar nod strategol a fydd yn llywio ein gwaith ac yn ein helpu i werthuso effaith y strategaeth. Mae trosolwg o'r amcanion strategol i'w weld yn **atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion drafft**.

Tabl 4: Barn ar y deilliannau strategol

C3. O ystyried y casgliad llawn o ddeilliannau strategol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eu bod yn briodol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	45 (28%)	5 (23%)	50 (27%)
Cytuno	87 (53%)	15 (68%)	102 (55%)
Ddim yn cytuno na'n anghytuno	20 (12%)	1 (5%)	21 (11%)
Anghytuno	4 (2%)	0 (0%)	4 (2%)
Anghytuno'n gryf	3 (2%)	0 (0%)	3 (2%)
Ddim yn gwybod	4 (2%)	1 (5%)	5 (3%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Tabl 5: Barn ynghylch a ddylid newid yr amcanion strategol neu a oes unrhyw beth ar goll

C4. Oes unrhyw beth ar goll o'r deilliannau strategol, neu unrhyw beth y dylid ei newid?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Oes	34 (21%)	15 (68%)	49 (26%)
Nac oes	95 (58%)	5 (23%)	100 (54%)
Ddim yn gwybod	34 (21%)	2 (9%)	36 (19%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Tabl 6: Barn ar ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau i'r amcanion strategol

C4a. Pa rai o'r deilliannau strategol canlynol sydd angen ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
<i>DS: o'r rhai a ymatebodd 'oes' i C4 (n = 49). Aml-ddewis - nid yw'r canrannau'n adio i fyny i 100%</i>			
Mae angen deilliannau ychwanegol	16 (47%)	5 (33%)	21 (43%)
Mae gweithwyr proffesiynol yn deall pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest, a bydd cydnabod unrhyw gamgymeriadau'n gyflym yn lleihau'r angen am ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.	6 (18%)	7 (47%)	13 (27%)
Mae ein penderfyniadau'n glir, yn amserol, yn rhydd rhag rhagfarn, yn gymesur ac yn ymdrin ag achos y pryder rheoleiddiol.	6 (18%)	7 (47%)	13 (27%)
Mae gweithwyr proffesiynol, cleifion, y cyhoedd ac unrhyw dystion yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan yn y broses, ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth.	4 (12%)	9 (60%)	13 (27%)
Mae'n hawdd mynegi pryder a deall y broses a'r hyn y mae'n ei olygu i bawb dan sylw.	7 (21%)	5 (33%)	12 (24%)
Dim ond y pryderon mwyaf difrifol sy'n cyrraedd gwrandawriad.	7 (21%)	5 (33%)	12 (24%)
Mae cleifion a'r cyhoedd yn derbyn gofal diogel ac effeithiol oherwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer a gallant gael unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnyn nhw i'w helpu i gyrraedd ein safonau.	4 (12%)	6 (40%)	10 (20%)
Mae mwy o bryderon yn cael eu datrys yn ddiogel yn gynharach, drwy gymorth, adfyfrio a dysgu, heb fod angen gwrandawriad.	2 (6%)	6 (40%)	8 (16%)
Mae ein rhanddeiliaid yn ffyddiog ein bod yn rhoi camau gweithredu priodol ar waith i ddelio â phryderon, hyd yn oed os nad ydyn ni'n agor ymchwiliad addasrwydd i ymarfer ffurfiol.	1 (3%)	4 (27%)	5 (10%)
Cyfanswm N ymatebion	34	15	49

Mae Tabl 4 yn dangos bod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr amcanion strategol yn briodol (82%). Roedd cyfran fach iawn o'r ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y canlyniadau'n briodol (4%). Ni nodwyd y dewis hwn gan unrhyw sefydliadau.

Roedd tua dau o bob tri sefydliad (68%), fodd bynnag, yn credu bod agweddau ar goll o'r deilliannau strategol, neu oedd angen eu newid. Roedd hyn yn gyfran lawer uwch nag ymhlith ymatebwyr unigol (21%). At ei gilydd, roedd dros hanner yr holl ymatebwyr (54%) ddim yn credu bod unrhyw beth ar goll o'r deilliannau strategol neu fod angen eu newid, ac roedd un o bob pump (19%) yn dweud nad oedden nhw'n gwybod.

Dim ond i'r rhai a ymatebodd 'Oes' i gwestiwn pedwar y gofynnwyd pa ddeilliannau strategol roedden nhw'n teimlo bod angen ychwanegiadau neu welliannau iddynt. Mae Tabl 6 yn dangos bod 43% o'r ymatebwyr hynny'n teimlo bod angen deilliannau ychwanegol. Y tri deilliant y dywedodd ymatebwyr amlaf fod angen newidiadau iddynt oedd '*Mae gweithwyr proffesiynol yn deall pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest, ac os ydynt yn cydnabod unrhyw gamgymeriadau'n gyflym bydd hyn yn lleihau'r angen am ymchwiliad addasrwydd i ymarfer*' (27%), '*Mae gweithwyr proffesiynol, cleifion, y cyhoedd ac unrhyw dystion yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn y broses*' (27%), a '*Mae ein penderfyniadau'n glir, yn amserol, yn rhydd o ragfarn, yn gymesur ac yn ymdrin ag achos y pryder rheoliadol*' (27%).

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd fod angen gwelliannau neu ychwanegiadau i'r amcanion strategol roi disgrifiad byr o'r newidiadau roedden nhw'n credu eu bod yn angenrheidiol. Gadawodd rhyw chwarter o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

3.1. Crynodeb o'r themâu

Roedd y themâu ymhlith yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu rhai'r adran flaenorol yn agos. Unwaith eto, er bod ymatebwyr wedi cyflwyno ystod eang o sylwadau, roedd un thema amlwg yn dod i'r amlwg, sef ceisiadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau neu ychwanegiadau penodol.

Archwilir y themâu a geir o'r sylwadau isod, yn nhrefn pa mor aml y codon nhw, ac fel y'u nodir yma:

- Angen gwelliant neu ychwanegiad penodol
- Cymorth i weithwyr proffesiynol
- Rhaid deall gwir gymhellion yr achwynydd
- Sut bydd y CFfC yn mesur ei gynnydd?
- Sylwadau eraill

3.2. Angen gwelliant neu ychwanegiad penodol

Gadawodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, sylwadau gydag awgrymiadau penodol ar sut y dylid diwygio'r deilliannau strategol neu'r hyn y dylid ei ychwanegu atynt.

Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, roedd y gwelliannau, yr ychwanegiadau a'r canlyniadau ychwanegol penodol a gafodd eu cynnig yn amrywio'n sylweddol, ond roedd yn dal yn bosibl nodi nifer o themâu. Mae'r themâu hyn i'w gweld isod, yn nhrefn pa mor aml y codon nhw.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid diwygio'r deilliannau, neu ychwanegu deilliant ychwanegol, fel eu bod yn cynnwys datganiad o gefnogaeth i weithwyr fferyllol proffesiynol. Teimlai rhai o'r

ymatebwyr hyn y dylai'r deilliannau nodi'n glir y byddai'r CFFC yn cefnogi gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael pryderon wedi eu mynegi amdanynt i lywio'r broses addasrwydd i ymarfer. Awgrymwyd hefyd y dylai'r CFFC ystyried ychwanegu sut y byddem yn helpu gweithwyr proffesiynol i gyrraedd y safonau a'u diogelu rhag erledigaeth a stigma.

- Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r deilliannau gynnwys rhywfaint o gyfeiriad at ddwyn achwynwyr i gyfrif am y pryderon y maen nhw'n eu codi. Yn eu barn nhw, roedd angen ymrwymiad i ymchwilio i bryderon a allai fod yn ddifennol a rhoi camau priodol ar waith pe gwelid bod cymhellion yr achwynydd yn faleisus.
- Cynigiodd ychydig o ymatebwyr y dylid dwyn cyflogwyr i gyfrif am y prosesau a'r gweithdrefnau a roddwyd ar waith ganddynt fel deiliant ychwanegol. Wrth wneud hynny, awgrymwyd yn glir bod yr amgylchedd sy'n cael ei greu gan gyflogwyr yn y gweithle'n chwarae rhan bwysig yn y digwyddiadau a'r gwallau sy'n arwain at godi pryderon gyda'r CFFC.
- Yn ôl ychydig o ymatebwyr dylid cynnwys ymrwymiad i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau a gosod sancsiynau addasrwydd i ymarfer yn rhywle yn y deilliannau.
- Argymhellodd ambell ymatebydd y dylai cefnogi iechyd meddwl y rhai sy'n ymwneud ag ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer fod yn ddeiliant allweddol i'r CFFC.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr nad oedd y geiriad 'gallu cael unrhyw gymorth' yn y deiliant cyntaf yn briodol ac y dylid rhoi rhywbeth tebyg i 'cael mynediad hawdd at unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt' yn lle.

3.3. Cefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol

Yn eu hymatebion i'r cwestiwn hwn, awgrymodd rhai ymatebwyr neu nodi'n gyffredinol y dylai'r CFFC gefnogi ac amddiffyn gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n rhan o ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Roedd hyn yn ychwanegol at y galwadau penodol am ddiwygio'r deilliannau i gynnwys datganiad o gefnogaeth i weithwyr fferyllol proffesiynol. Mae'n werth nodi hefyd bod y thema hon yn llawer mwy cyffredin ymhlith ymatebwyr unigol na sefydliadau.

Tynnodd rhai o'r ymatebwyr hyn sylw hefyd at y straen a'r gost ariannol sy'n gysylltiedig ag achosion addasrwydd i ymarfer, gan annog y CFFC i ddiogelu iechyd a lles meddyliol gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o ymchwiliadau.

3.4. Rhaid ystyried gwir gymhellion yr achwynwyr

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr unigol neu nodi'n ddiamwys y gall y broses addasrwydd i ymarfer annog cleifion, cyflogwyr neu gydweithwyr anniddig i godi pryderon ffug neu faleisus, neu gael eu defnyddio fel arf i fygwth neu gosbi gweithwyr fferyllol proffesiynol. O ganlyniad, nodwyd yn glir y dylai'r CFFC ystyried cymhellion achwynwyr wrth asesu pryderon a phenderfynu pa gamau rheoleiddio i'w rhoi ar waith.

3.5. Sut bydd y CFFC yn mesur ei gynnydd?

Gofynnodd ychydig o ymatebwyr hefyd sut y byddai'r CFFC yn mesur ei gynnydd yn erbyn y deilliannau. Roedd y thema hon yn llawer mwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag ymatebwyr unigol. Yn eu barn nhw, roedd esboniad clir o sut roedd y CFFC yn bwriadu sefydlu, mewn modd gwrthrychol, a oedd y deilliannau wedi'u cyflawni, gan gynnwys pa feincnodau y bydden ni'n eu defnyddio ar goll o'r strategaeth.

3.6. Sylwadau eraill

Yn ogystal â'r themâu a nodwyd uchod, roedd nifer o themâu eraill, llai cyffredin, o fewn sylwadau, a nodir y rhai mwyaf cyffredin isod.

- Croesawodd nifer fach o sefydliadau neu fynegi cefnogaeth gyffredinol i un neu ragor o'r deilliannau strategol. Yn arwyddocaol, nid oedd y thema hon yn bresennol mewn sylwadau a wnaed gan ymatebwyr unigol.
- Anogodd rhai ymatebwyr y CFfC i gefnogi pobl yn y broses o godi pryder. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr hyn y gallai'r CFfC wneud mwy i ddiogelu a chefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n codi pryderon chwythu'r chwiban.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr unigol yn teimlo bod un neu ragor o'r deilliannau strategol yn amhriodol. Nid oedd consensws rhwng yr ymatebwyr hyn, fodd bynnag, o ran beth yn union oedd o'i le.
- Gofynnodd rhai unigolion a ymatebodd i'r CFfC ymhelaethu ar ba achosion fyddai'n cael eu hystyried fel 'y pryderon mwyaf difrifol'.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd datrys pryderon mewn modd amserol gan ambell ymatebydd unigol.

4. Meysydd ymholi a'r prawf arfaethedig i benderfynu a ddylid cyfeirio pryder i gael ymchwiliad iddo

Rydyn ni'n cynnig gwneud mwy o ymholiadau pan fyddwn yn derbyn pryder am y tro cyntaf, i'n helpu i gasglu digon o dystiolaeth i wneud penderfyniad gwybodus am y camau mwyaf addas i'w rhoi ar waith. Rydym ni'n nodi'r meysydd ymholi ar dudalen 14 y **ddogfen ymgynghori**.

Tabl 7: Barn ar y meysydd ymholi priodol

C5. Ydyn ni wedi nodi'r meysydd ymholi priodol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Ydych	127 (78%)	16 (73%)	143 (77%)
Nac ydych	19 (12%)	6 (27%)	25 (14%)
Ddim yn gwybod	17 (10%)	0 (0%)	17 (9%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Wedi i ni gwblhau ein hymholiadau, rydym ni hefyd yn cynnig defnyddio'r prawf canlynol i benderfynu a ddylid cyfeirio pryder at ymchwiliad neu a yw dewis arall yn briodol o dan yr amgylchiadau: *Ydy'r wybodaeth yn awgrymu seiliau posibl dros ymchwilio a yw'n bosibl bod nam ar addasrwydd gweithiwr fferyllol i ymarfer?*

Tabl 8: Barn ar y prawf arfaethedig i benderfynu a ddylid cyfeirio pryder i gael ymchwiliad iddo

C6. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prawf arfaethedig yn briodol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	32 (20%)	2 (9%)	34 (18%)
Cytuno	92 (56%)	11 (50%)	103 (56%)
Ddim yn cytuno na'n anghytuno	16 (10%)	4 (18%)	20 (11%)
Anghytuno	9 (6%)	3 (14%)	12 (6%)
Anghytuno'n gryf	9 (6%)	0 (0%)	9 (5%)
Ddim yn gwybod	5 (3%)	2 (9%)	7 (4%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Mae Tabl 7 yn dangos bod dros dri chwarter yr holl ymatebwyr o'r farn ein bod wedi nodi'r meysydd ymholi priodol, gan gynnwys cyfran debyg o unigolion (78%) a sefydliadau (73%). Fodd bynnag, mae cyfran uwch o sefydliadau (27%) nad oedden nhw'n credu ein bod wedi nodi'r meysydd priodol o'u cymharu ag unigolion (12%).

Mae Tabl 8 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r prawf arfaethedig i benderfynu a ddylid cyfeirio pryder i'w ymchwilio (74%). Roedd y cytundeb yn gryfach ymhlith unigolion (76%) na sefydliadau (59%). Roedd cyfran uwch o sefydliadau (14%) anghytuno o'u cymharu ag unigolion (6%). Roedd tuag un o bob deg o'r holl ymatebion ddim yn cytuno nac yn anghytuno bod y prawf arfaethedig yn briodol (11%).

Gadawodd tua dau o bob tri ymatebydd sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

4.1. Crynodeb o'r themâu

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn croesawu'r meysydd ymholi arfaethedig a'r prawf a fyddai'n cael ei ddefnyddio wedi hynny. Yn wir, y themâu amlycaf o'r ymatebion oedd cytundeb cyffredinol â'r cynigion hyn a'r syniad bod angen ymholiad cychwynnol trylwyr. Fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn rhai ymatebwyr a deimlai y gallai'r cynigion gael eu gwella mewn rhyw ffordd.

Nodir isod y themâu a welwyd yn yr ymatebion, yn nhrefn amllder, fel y nodir yma:

- Cytundeb cyffredinol
- Cytuno bod angen ymholiad cychwynnol trylwyr
- Angen gwelliant neu ychwanegiad
- Angen rhagor o wybodaeth
- Sylwadau eraill

4.2. Cytundeb cyffredinol â'r cynigion

Mynegodd nifer fawr o ymatebwyr, gyda chyfran uwch o sefydliadau nag ymatebwyr unigol, gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion. Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai gwneud mwy o ymholiadau yn gynt yn y broses addasrwydd i ymarfer yn helpu'r CFFC i ymateb yn gyflym ac yn gymesur i bryderon. Nodwyd y byddai hyn yn arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys lleihau'r risg i ddiogelwch cleifion drwy adnabod pryderon difrifol yn gynharach a lleihau nifer y pryderon y mae angen ymchwiliad llawn iddyn nhw, a fyddai, yn ei dro, yn lleihau teimladau o straen a phryder i weithwyr fferyllol proffesiynol ac achwynwyr.

4.3. Angen ymholiad cychwynnol trylwyr

Ochr yn ochr â'r ymatebwyr a fynegodd gytundeb cyffredinol â'r cynigion, pwysleisiodd rhai bwysigrwydd cynnal ymholiadau cychwynnol trylwyr pan ddaw pryder i law, a thrwy hynny ddangos eu cefnogaeth i'r ymholiadau ychwanegol arfaethedig. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin o lawer yn ymatebion sefydliadau nag ymatebwyr unigol.

Roedd llond llaw o ymatebwyr o'r farn y dylid casglu ac asesu cymaint o dystiolaeth â phosibl cyn penderfynu pa gamau rheoleiddio i'w rhoi ar waith. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai cynnal rhagor o ymholiadau yn ystod cam cychwynnol y broses addasrwydd i ymarfer yn arwain at ddatrys pryderon yn gynharach.

4.4. Angen gwelliant neu ychwanegiad

Gadawodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag unigolion, argymhellion penodol ar gyfer sut y dylid diwygio'r meysydd ymholi neu brawf newydd. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylid dileu'r gair 'posibl' o'r prawf, gan ei fod yn eithaf amwys ac y gallai osod trothwy isel ar gyfer ymchwiliadau.

4.5. Angen rhagor o wybodaeth

Roedd rhai ymatebwyr am gael rhagor o wybodaeth am y cynigion. Gofynnodd rhai ymatebwyr, er enghraifft, a oedd y meysydd ymholi yn dwyn pwysau gwahanol wrth benderfynu a ddylid ymchwilio. Gofynnwyd hefyd am ragor o fanylion am gefndiroedd a hyfforddiant gweithwyr achos. Wrth wneud hynny, awgrymwyd yn glir y byddai llwyddiant y cynigion yn dibynnu ar a oedd gweithwyr achos wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gymhwyso'r meini prawf newydd.

4.6. Sylwadau eraill

Gwnaed y sylwadau canlynol gan nifer fach o ymatebwyr ond roedden nhw'n cynrychioli themâu cyffredin yn yr ymatebion:

- Pwysleisiodd nifer fach o ymatebwyr unigol bwysigrwydd ystyried y cyd-destun y digwyddodd pryder ynddo wrth iddo ddod i law am y tro cyntaf. Yn eu barn hwy, dylai'r CFFC ystyried ffeithiau llawn y pryder, gan gynnwys y cefndir a'r amgylchedd gwaith, wrth benderfynu ai ymchwiliad yw'r ffordd gywir o weithredu ai peidio.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr, gyda chyfran uwch o ymatebwyr unigol na sefydliadau, y dylid ystyried cymhellion achwynwyr hefyd yn ystod yr asesiad cychwynnol o bryderon. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, roedd yn hanfodol bod y rheswm pam y codwyd pryder yn cael ei sefydlu er mwyn amddiffyn gweithwyr fferyllol proffesiynol rhag pryderon sbeitleyd, ffug neu wahaniaethol.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r CFFC ddwyn cyflogwyr i gyfrif am eu rhan nhw mewn pryderon. Yn eu barn nhw, mae'r amgylchedd gwaith sy'n cael ei greu gan gyflogwyr a rheolwyr yn aml yn chwarae rhan allweddol mewn pryderon. Felly, dylai'r CFFC hefyd ystyried ymchwilio i gyflogwyr, lle ceir tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cyfrannu at y pryder, yn hytrach na pharhau i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymddygiad gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol.
- Galwodd rhai ymatebwyr am i'r CFFC gefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol drwy'r broses addasrwydd i ymarfer neu eu diogelu rhag pryderon annilys neu wamal. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin o lawer yn ymatebion y sefydliadau na'r ymatebwyr unigol.

5. Darn adfyfyriol

Rydyn ni'n cynnig gwahodd gweithwyr fferyllol proffesiynol mewn rhai achosion i greu darn adfyfyriol fel ffordd o reoli rhai pryderon y tu allan i'r prosesau ffurfiol. Nodir y cynnig hwn ar dudalen 14 y **ddogfen ymgynghori**.

Tabl 9: Barn ar ein cynnig i wahodd gweithwyr fferyllol proffesiynol mewn rhai achosion i greu darn adfyfyriol fel ffordd o reoli rhai pryderon y tu allan i'r prosesau ffurfiol.

C8. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hwn yn deilliant priodol ac effeithiol ar gyfer rhai pryderon?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	44 (27%)	3 (14%)	47 (25%)
Cytuno	69 (42%)	8 (36%)	77 (42%)
Ddim yn cytuno na'n anghytuno	25 (15%)	7 (32%)	32 (17%)
Anghytuno	15 (9%)	2 (9%)	17 (9%)
Anghytuno'n gryf	7 (4%)	1 (5%)	8 (4%)
Ddim yn gwybod	3 (2%)	1 (5%)	4 (2%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Roedd tua dau o bob tri (67%) o'r holl ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cynhyrchu darn adfyfyriol yn ddeilliant priodol ac effeithiol i rai pryderon yn ymwneud â gweithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd y cytundeb yn gryfach ymhlith yr unigolion (27%) na'r sefydliadau (14%).

Roedd cyfran debyg o unigolion a sefydliadau yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod darn adfyfyriol yn briodol (13% ac 14%). Roedd cyfran uwch o lawer o sefydliadau (32%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno o gymharu ag unigolion (15%).

Rhoddodd tua dau o bob tri ymatebydd sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

5.1. Crynodeb o'r themâu

Roedd barn ymatebwyr ar ddatganiadau adfyfyriol yn eithaf cymysg. Er bod llawer o ymatebwyr o blaid y cynnig hwn neu'n teimlo y byddai'n gweithio pe bai ar waith gyda'r achosion iawn, mynegodd lleiafrif

cymharol sylweddol wrthwynebiad i newid o'r fath neu godi pryderon ynghylch sut y byddai'n gweithio'n ymarferol.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn nodi'r themâu a ddeilliodd o'r sylwadau, yn nhrefn amllder, fel y'u cyflwynir yma:

- Annog dysgu ac adfyfyrio
- Cytundeb cyffredinol
- Dim ond ar gyfer rhai achosion y mae darnau adfyfyriol yn briodol
- Nid yw'r cynigion yn briodol
- Angen rhagor o wybodaeth
- Sylwadau eraill

5.2. Annog dysgu ac adfyfyrio

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynigion, teimlai llawer y gallai darnau adfyfyriol fod yn arf defnyddiol i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i adfyfyrio ar eu gweithredoedd a dysgu oddi wrthynt. Roedd y thema hon yn llawer amlycach ymhlith ymatebwyr unigol na sefydliadau. Aeth rhai o'r ymatebwyr hyn mor bell â dweud y byddai galluogi gweithwyr fferyllol proffesiynol adfyfyrio a dysgu o'u camgymeriadau yn atal camgymeriadau tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol. Nododd llond llaw ohonyn nhw hefyd y byddai'r cynigion yn meithrin diwylliant o fod yn agored a dysgu mewn rheoleiddio fferylliaeth a fferylliaeth, gan gynorthwyo'r CFfC i symud i ffwrdd o'r canfyddiad o feio a chosbi sy'n gysylltiedig â'n proses addasrwydd i ymarfer.

5.3. Cytundeb cyffredinol â'r cynigion

Nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr unigol na sefydliadau, yn gyffredinol fod y cynigion yn ymddangos yn rhesymol. Yn eu barn nhw, mae gan ddatganiadau adfyfyriol rôl bwysig i'w chwarae wrth symud ymlaen ym mhroses addasrwydd i ymarfer y CFfC Fodd bynnag, cododd y sefydliadau a ymatebodd yn y modd hwn nifer o broblemau neu rwystrau posibl hefyd, y mae'r rhai mwyaf cyffredin ohonynt yn cael eu harchwilio isod, neu gofynnon nhw am ragor o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

5.4. Dim ond ar gyfer rhai achosion y mae darnau adfyfyriol yn briodol

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr mai dim ond gyda mathau penodol o achosion y byddai datganiadau adfyfyriol yn briodol. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau o'r math hwn. Roedd canfyddiad ymhlith yr ymatebwyr hyn, er bod cyflwyno darnau adfyfyriol yn gam cadarnhaol, y dylid eu defnyddio'n ofalus, dim ond mewn rhai amgylchiadau.

Fodd bynnag, roedd barn ymatebwyr yn gwahaniaethu o ran pa fathau yn union o bryderon neu amgylchiadau y byddai darnau adfyfyriol yn briodol ar eu cyfer. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn na ddylid ystyried darnau adfyfyriol ar gyfer pryderon difrifol na rhai'n ymwneud â materion troseddol. Ar y llaw arall, awgrymodd rhai na fyddai darnau adfyfyriol yn briodol mewn amgylchiadau lle roedd perygl y gellid defnyddio barn a myfyrdodau'r gweithiwr fferyllol proffesiynol yn eu herbyn mewn ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol neu ymchwiliadau eraill. At hynny, rhybuddiodd rhai yn erbyn defnyddio darnau adfyfyriol ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a allai fod ag anhawster yn eu mynegi eu hunain neu oedd heb fynediad at gymorth gan gymheiriaid, megis gweithwyr proffesiynol locwm.

5.5. Nid yw'r cynigion yn briodol

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr, gan gynnwys mwy o ymatebwyr unigol nag o ymatebwyr ar ran sefydliadau, neu nodi'n glir na fyddai darnau adfyfyriol yn ffordd briodol o reoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. O'r rhai oedd o'r farn hon, teimlai llawer na fyddai darnau adfyfyriol, ar eu pennau eu hunain, yn annog mewnwelediad, myfyrdod na dysgu go iawn gan weithwyr fferyllol proffesiynol. Ar nodyn tebyg, credai rhai ohonynt y gallai fod yn anodd barnu a oedd adfyfyrio gonest wedi digwydd, yn enwedig o ystyried y byddai'r ansawdd yn debygol o ddibynnu mwy ar allu ysgrifennu'r gweithiwr proffesiynol a mynediad at gymorth, yn hytrach nag adfyfyrio gwirioneddol.

5.6. Angen rhagor o wybodaeth

Roedd cyfran fawr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r CFfC ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r cynigion hyn yn gweithio'n ymarferol. Yn arwyddocaol, nid oedd y thema hon yn gyffredin yn y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr unigol. Yn gyffredinol, teimlai'r sefydliadau hyn, er y gallai fod gwerth mewn defnyddio darnau adfyfyriol i reoli rhai pryderon, fod cynigion y CFfC yn gadael cwestiynau pwysig heb eu hateb. Aeth rhai mor bell ag awgrymu na allent gymeradwyo'r cynigion yn llawn nes bod eglurder pellach wedi'i ddarparu.

Roedd llawer o sefydliadau'n cwestiynu sut y byddai darnau adfyfyriol yn cael eu gwerthuso, gan gynnwys y meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio, ac a fyddai penderfyniadau'n cael eu hadolygu i sicrhau ansawdd a chysondeb. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe bai darn adfyfyriol yn codi pryderon pellach neu os nad oedd y gweithiwr proffesiynol yn dangos lefelau digonol o fewnwelediad neu adfyfyrio. Holodd rhai hefyd pa fathau o bryderon y gellid eu cwblhau gyda darnau adfyfyriol ac a fyddai darnau adfyfyriol yn rhan o'r broses ailddilysu neu'n cael eu cyflwyno fel deiliant unigol ar wahân.

5.7. Sylwadau eraill

Gadawodd ymatebwyr nifer o sylwadau eraill yn ogystal â'r rhai sydd eisoes wedi eu nodi yn rhan hon yr adroddiad. Mae detholiad o'r themâu mwyaf cyffredin yn yr ymatebion hyn isod.

- Yn ôl rhai ymatebwyr, gan gynnwys mwy o ymatebwyr unigol nag o sefydliadau, nid yw adfyfyrio bob amser yn trosi i ddyddu a gwella. Yn eu barn nhw, mae perygl y gallai darnau adfyfyriol ddilyn fformiwla, a gallai hyn fod yn ymarferiad ticio blychau yn unig, gan olygu na fyddai adfyfyrio wir yn digwydd.
- Awgrymodd ychydig o ymatebwyr y dylai'r cynigion gynnwys mentor neu gynllun cymorth cymheiriaid i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i ymgorffori'r dysgu a'r mewnwelediad a nodwyd yn eu darnau adfyfyriol yn eu hymarfer.
- Nododd ychydig o ymatebwyr unigol, gyda phryder, y gallai darnau adfyfyriol gael eu manipiwleiddio gan weithwyr fferyllol proffesiynol, a thrwy hynny gyfyngu ar eu gwerth o ran mewnwelediad neu adfyfyrio. Gallai gweithwyr proffesiynol ofyn i gydweithiwr helpu, er enghraifft, neu hyd yn oed ysgrifennu darnau ar eu cyfer, neu seilio eu hadfyfyriion ar atebion model.
- Mynegwyd pryderon y gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn amharod i adfyfyrio, yn enwedig yng ngoleuni achos proffil uchel Dr Bawa-Garba. Yn yr un modd, roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai'r CFfC yn caniatáu i adfyfyrio gweithiwr proffesiynol gael ei ystyried mewn achosion addasrwydd i ymarfer neu lys yn y dyfodol.

- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at adolygiad Williams o ddynladdiad esgeulus difrifol mewn gofal iechyd, a argymhellodd y dylid eithrio'r arferion adfyfyrion o achosion addasrwydd i ymarfer.
- Dywedodd rhai ymatebwyr na fyddai pob gweithiwr fferyllol proffesiynol yn gallu cyfleu eu hadfyfyrion personol yn ddigonol, gan arwain at wahaniaethu.

6. Cyfryngu

Dangosodd ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ein gwaith yn edrych ar reoleiddwyr eraill, y gallai cyfryngu chwarae rôl wrth ddatrys pryderon.

Tabl 10: Barn ar rôl cyfryngu wrth ddatrys pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol

C10. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gall cyfryngu chwarae rôl wrth ddatrys pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	42 (26%)	4 (18%)	46 (25%)
Cytuno	72 (44%)	7 (32%)	79 (43%)
Ddim yn cytuno na'n anghytuno	32 (20%)	6 (27%)	38 (21%)
Anghytuno	8 (5%)	3 (14%)	11 (6%)
Anghytuno'n gryf	2 (1%)	1 (5%)	3 (2%)
Ddim yn gwybod	7 (4%)	1 (5%)	8 (4%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Roedd chwarter yr holl ymatebwyr (25%) cytuno'n gryf y gallai cyfryngu chwarae rhan yn y gwaith o ddatrys pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol ac roedd 43% arall yn cytuno â'r cynnig hwn.

Er gwaethaf hyn, roedd 19% o sefydliadau'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y gallai cyfryngu chwarae rôl, o gymharu ag unigolion (6%).

Rhoddodd tua dau o bob tri ymatebydd sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

6.1. Crynodeb o'r themâu

Roedd cefnogaeth gref i gyfryngu ymhlith yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Y thema fwyaf cyffredin yn yr ymatebion oedd y byddai cyfryngu yn arf defnyddiol ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd y byddai cyfryngu'n briodol mewn rhai amgylchiadau neu pe bai amodau penodol yn cael eu bodloni.

Ar y llaw arall, tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at heriau neu amgylchiadau posibl pan na fyddai'n ddeiliant priodol, neu hyd yn oed yn fynegi gwrthwynebiad llwyr i newid o'r fath. At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn amharod i gymeradwyo cyfryngu'n llawn nes i'r CFC roi eglurder ynghylch sut y byddai'n gweithio'n ymarferol.

Mae'r dadansoddiad isod yn dangos y themâu a welwyd yn y sylwadau, yn nhrefn nifer yr achosion, fel a ganlyn:

- Mae cyfryngu'n ddefnyddiol
- Rhaid dewis cyfryngwyr yn ofalus
- Angen rhagor o wybodaeth
- Dim ond ar gyfer mathau penodol o bryderon y mae'n briodol
- Sylwadau eraill

6.2. Mae cyfryngu'n ddefnyddiol

Teimlai nifer fawr o ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, y byddai cyfryngu yn ffordd ddefnyddiol o ddatrys pryderon. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, roedd y syniad o ddod â'r ddwy ochr at ei gilydd i ddod i gytundeb drwy ddeialog â chymorth yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr hyn hefyd yn tynnu sylw at broblemau posibl neu bwyntiau mwy cyffredinol i'r CFC eu hystyried, megis pwysigrwydd dewis cyfryngwyr yn ofalus (gweler adran 6.3).

Cafodd y potensial i feithrin cyd-ddealltwriaeth rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r cyhoedd ei nodi gan rai ymatebwyr fel un o fanteision allweddol cyfryngu. Yn eu barn nhw, mae cyfryngu'n rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol ddysgu sut roedd eu gweithredoedd yn effeithio ar y claf, ar yr un pryd â chaniatáu i achwynwyr ddeall yn llawn weithredoedd y gweithwyr proffesiynol a'r cyd-destun y digwyddon nhw ynddo.

Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at y modd y gallai cyfryngu fod yn ffordd gyflym ac effeithiol o ddelio â rhai pryderon, yn enwedig y rhai llai difrifol. Fel arall, awgrymodd llond llaw y byddai cyfryngu'n caniatáu i weithwyr fferyllol proffesiynol adfyfrio ar eu gweithredoedd a dysgu oddi wrthynt. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai cyfryngu'n annog gweithwyr proffesiynol i fod yn agored ac yn onest am eu camgymeriadau, a nododd ychydig iawn y byddai cyfryngu'n achosi llai o straen pan fo pryderon yn cael eu hymchwilio.

6.3. Rhaid dewis cyfryngwyr yn ofalus

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai llwyddiant y cynigion yn dibynnu ar ddewis unigolion priodol i weithredu fel cyfryngwyr. Fodd bynnag, roedd barn ymatebwyr yn gwahaniaethu o ran pa fath yn union o bobl ddylai gyfryngu. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r cyfryngwr fod yn annibynnol ar y CFC. Teimlai llond llaw o ymatebwyr y dylent fod yn weithwyr fferyllol proffesiynol neu'n bobl â gwybodaeth briodol am reoleiddio fferylliaeth a fferylliaeth yn gyffredinol. Yn groes i hyn, roedd rhai'n bendant y dylai'r cyfryngwr fod yn ymarferydd profiadol gyda hyfforddiant priodol, yn hytrach na'n weithiwr fferyllol proffesiynol neu'n aelod o staff y CFC.

6.4. Angen rhagor o wybodaeth

I llond llaw o ymatebwyr, roedd cynigion y CFC mewn perthynas â chyfryngu yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut rodden ni'n rhagweld y byddai'n gweithio'n ymarferol. Cododd cyfran uwch o sefydliadau nag o unigolion y pwynt hwn. Er enghraifft, teimlai rhai ymatebwyr fod angen rhagor o fanylion am y sefyllfaoedd y gallai cyfryngu fod yn briodol ar eu cyfer. Holodd ychydig o ymatebwyr hefyd am y partïon fyddai'n ymwneud â chyfryngu a phwy fyddai'n gweithredu fel y cyfryngwr.

Aeth llond llaw o ymatebwyr mor bell â dweud na allent wneud sylwadau ynghylch a fyddai cyfryngu yn ffordd briodol o ddatrys pryderon nes bod eglurder wedi'i ddarparu ynghylch sut a phryd yr oedd y CFFC yn bwriadu defnyddio'r deilliant hwn.

6.5. Dim ond ar gyfer mathau penodol o bryderon y mae'n briodol

Yn ôl rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, dim ond mewn rhai amgylchiadau y byddai cyfryngu'n ddefnyddiol. Yn gyffredinol, roedd canfyddiad ymhlith yr ymatebwyr hyn, er y gallai cyfryngu fod â rôl i'w chwarae wrth ddatrys cwynion, anghytundebau neu anghydfodau rhwng cleifion a gweithwyr fferyllol proffesiynol, na fyddai'n briodol i bryderon sy'n dangos y gallai fod nam ar addasrwydd gweithiwr proffesiynol i ymarfer, yn enwedig y rhai lle'r oedd risg amlwg i ddiogelwch cleifion.

6.6. Sylwadau eraill

Gwnaed y sylwadau canlynol gan nifer fach o ymatebwyr ond roedden nhw'n cynrychioli themâu cyffredin yn yr ymatebion:

- Ochr yn ochr â'r ymatebwyr hynny oedd yn teimlo y byddai cyfryngu'n ddefnyddiol, dywedodd rhai yn fwy cyffredinol fod y cynigion yn briodol. Roedd y thema hon yn llawer mwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau na'r rhai gan ymatebwyr unigol.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr unigol y byddai cyfryngu, o'i gymhwyso'n briodol, yn helpu i leihau rhagfarn yn ein proses addasrwydd i ymarfer.
- Mynegodd rhai ymatebwyr, sefydliadau'n bennaf, wrthwynebiad i'r syniad y gallai cyfryngu chwarae rhan yn y gwaith o reoli pryderon. Codwyd y farn hon yn llawer amlach yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid nag yn yr ymatebion i'r arolwg. Yn benodol, roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn dadlau bod cyfryngu ac addasrwydd i ymarfer yn anghydnaws, o ystyried bod y cyntaf wedi'i gynllunio i ddatrys cwynion ac anghydfodau, tra bo'r olaf yn anelu at ddiogelu'r cyhoedd a gweithredu er budd y cyhoedd.

7. Ein haddewidion gwasanaeth

Er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, rydyn ni'n cynnig nifer o addewidion gwasanaeth sy'n nodi'r hyn y dylech ei ddisgwyl gennym. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl ar dudalennau 17 a 18 y [ddogfen ymgynghori](#).

Tabl 11: Barn ar ein haddewidion gwasanaeth addasrwydd i ymarfer

C12. Ydych chi'n credu bod ein haddewidion gwasanaeth yn rhoi disgwyliadau clir i chi o'r gwasanaeth y byddwch yn ei dderbyn gennym ni?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Ydw	127 (78%)	20 (91%)	147 (79%)
Nac ydw	15 (9%)	2 (9%)	17 (9%)
Ddim yn gwybod	21 (13%)	0 (0%)	21 (11%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Roedd cyfran fawr o'r holl ymatebwyr, gan gynnwys nifer uwch o sefydliadau (91%) nag o unigolion (78%), o'r farn bod ein haddewidion gwasanaeth yn rhoi disgwyliadau clir o'r gwasanaeth y gallai pobl ei ddisgwyl gennym ni.

Mae cyfran lawer llai (9%) o sefydliadau ac unigolion o'r farn nad oedd yr addewidion gwasanaeth yn rhoi disgwyliadau clir o'r gwasanaeth y gallai pobl ei ddisgwyl gennym ni.

Rhoddodd ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

7.1. Crynodeb o'r themâu

Cododd yr ymatebwyr a adawodd adborth penagored nifer o wahanol bwyntiau a safbwyntiau ar yr addewidion gwasanaeth arfaethedig. Er gwaethaf hyn, dim ond llond llaw o themâu oedd yn amlwg o'r sylwadau yn gyffredinol. Yr ymatebion amlycaf, o bell ffordd, oedd cefnogaeth gyffredinol a'r farn bod yr addewidion yn glir ac yn gryno. Roedd ymatebion cyffredin eraill yn cynnwys ceisiadau am welliannau ac ychwanegiadau ac yn galw ar y CFC i ymarfer yr hyn rydyn ni wedi'i nodi yn yr addewidion gwasanaeth.

Cyflwynir y themâu a ddaeth i'r amlwg drwy'r ymatebion isod, yn nhrefn amllder, fel a ganlyn:

- Cefnogaeth gyffredinol
- Mae addewidion y gwasanaeth yn glir ac yn gryno
- Diwygio neu ychwanegu
- Mae angen i'r CFC ymarfer yr hyn y mae wedi'i nodi yn yr addewidion gwasanaeth
- Sylwadau eraill.

7.2. Cefnogaeth gyffredinol

Dywedodd llawer o ymatebwyr yn gyffredinol eu bod yn cefnogi'r addewidion gwasanaeth. Roedd y thema hon yn llawer mwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag yn y rhai gan ymatebwyr unigol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod yr addewidion yn gam i'r cyfeiriad cywir, a fyddai'n helpu i yrru gwelliannau yn y gwasanaeth a ddarperir i gleifion a gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n rhan o broses addasrwydd i ymarfer y CFC.

O'r ymatebwyr hyn, roedd nifer fach yn arbennig o hapus gyda'r ymrwymiad i gael aelod penodedig o staff wedi'i neilltuo i'r sawl a gododd y pryder a'r gweithiwr fferyllol proffesiynol y mae'r pryder yn ymwneud ag ef. Roedd llond llaw ohonynt yn fach o weld bod y CFC wedi dangos parodrwydd i fynd i'r afael â'r prif feysydd i'w gwella yn ein proses addasrwydd i ymarfer. Dywedodd ychydig ohonynt hefyd fod yr ymrwymiad i gyfleu amserlenni tebygol i bawb oedd yn rhan o ymchwiliad ar ddechrau'r ymchwiliad yn gam cadarnhaol.

7.3. Mae'r addewidion gwasanaeth yn glir ac yn gryno

Ochr yn ochr â'r ymatebwyr hynny a leisiodd gefnogaeth gyffredinol i'r addewidion gwasanaeth, nododd llawer eu bod wedi'u cyfleu mewn ffordd glir a chryno. Cododd cyfran uwch o sefydliadau nag o unigolion y pwynt hwn. Serch hynny, cynigiodd rhai o'r ymatebwyr hyn welliannau penodol hefyd neu gyflwyno adborth mwy cyffredinol i'r CFC ei ystyried, gan awgrymu felly eu bod yn teimlo bod rhywfaint o le i wella.

7.4. Diwygio neu ychwanegu

Cynigiodd llond llaw o ymatebwyr gynigion penodol ar sut y gellid gwella'r addewidion gwasanaeth, naill ai drwy ychwanegiadau neu welliannau. Yn benodol, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn y dylai'r addewidion gynnwys esboniad clir o'r broses addasrwydd i ymarfer, er mwyn i'r rhai sy'n rhan o ymchwiliad ddeall sut rydyn ni'n rheoli pryderon. Roedd rhai'n anghytuno â'r gair 'addewidion', gan ddweud y gallai 'gwerthoedd' neu 'ymrwymadau' fod yn fwy priodol. Hefyd, dywedodd un ymatebydd y dylai'r addewidion gynnwys rhyw gyfeiriad at fod yn agored ac yn onest.

7.5. Mae angen i'r CFFC ymarfer yr hyn y mae wedi'i nodi yn yr addewidion gwasanaeth

Anogodd rhai ymatebwyr unigol y CFFC i sicrhau bod yr addewidion gwasanaeth yn cael eu rhoi ar waith. Wrth wneud hynny, roedden nhw'n amlwg yn awgrymu bod creu casgliad o addewidion a gweithredu arnyn nhw'n ddau beth gwahanol, nad ydynt yn eu dilyn ei gilydd yn awtomatig. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd fod gwasanaeth presennol y CFFC lawer yn is na'r safonau a nodir yn yr addewidion. Roedd rhai hyd yn oed yn amheus y byddai'r CFFC yn gallu eu gweithredu'n llawn.

7.6. Sylwadau eraill

Yn ogystal â'r themâu a nodwyd uchod, gadawodd ymatebwyr nifer o sylwadau eraill mewn perthynas â'r addewidion gwasanaeth, a nodir y rhai mwyaf cyffredin isod.

- Anogodd llond llaw o ymatebwyr y CFFC i gefnogi neu weithio gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi cael pryderon wedi eu codi amdanynt, gan gynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses ymchwilio. Roedd y thema hon yn llawer amlycach ymhlith ymatebwyr unigol nag ymhlith sefydliadau.
- Nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys nifer uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, y gall proses addasrwydd i ymarfer y CFFC fod yn straen ac yn llethol i weithwyr fferyllol proffesiynol. O ganlyniad, awgrymodd yr ymatebwyr hyn fod angen i ni wneud mwy i wneud i weithwyr proffesiynol sydd â phryderon wedi eu codi amdanynt deimlo'n fwy cyffyrddus.
- Anogodd rhai ymatebwyr y CFFC i ddangos mwy o dosturi, empathi a charedigrwydd wrth ddelio â gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n mynd drwy'r broses addasrwydd i ymarfer. Unwaith eto, cododd nifer uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol y pwynt hwn.
- Holodd rhai ymatebwyr unigol sut y byddai'r CFFC yn cael ei ddwyn i gyfrif er mwyn sicrhau y glynir wrth lefel y gwasanaeth a nodir yn yr addewidion.

8. Y rhwystrau a wynebir gan bobl sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchodedig yn ein proses addasrwydd i ymarfer

Rydyn ni am wella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl a allai atal grwpiau ac unigolion rhag gallu ymgysylltu'n effeithiol â ni oherwydd un neu ragor o nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu mesurau effeithiol i ddileu'r rhwystrau hyn. Yn benodol, rydyn ni am ddeall a yw pobl sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchodedig yn wynebu rhwystrau penodol yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer, oherwydd y nodweddion hynny, wedi i bryder gael ei fynegi.

Tabl 12: Barn ar y rhwystrau penodol a wynebwr gan bobl â nodweddion gwarchoddedig

C14. Ydych chi'n meddwl bod pobl sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig yn wynebu rhwystrau penodol yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer, oherwydd y nodwedd honno?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Ydw	57 (35%)	10 (45%)	67 (36%)
Nac ydw	46 (28%)	2 (9%)	48 (26%)
Ddim yn gwybod	60 (37%)	10 (45%)	70 (38%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Yr ymateb mwyaf cyffredin gan ymatebwyr (38%) oedd nad oedden nhw'n gwybod a oedd pobl sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig wedi wynebu rhwystrau penodol yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer oherwydd y nodwedd honno. Fodd bynnag, roedd tua thraean o'r holl ymatebwyr gan gynnwys cyfran fwy o sefydliadau (45%) nag o unigolion (35%) yn meddwl bod pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol yn wynebu rhwystrau. Nododd tua chwarter o'r holl ymatebwyr nad oedden nhw'n meddwl bod pobl yn wynebu rhwystrau penodol, gan gynnwys mwy o unigolion (28%) nag o sefydliadau (9%).

Gofynnwyd i ymatebwyr a deimlai fod pobl sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig yn wynebu rhwystrau adael sylwadau esboniadol, gan gynnwys unrhyw fesurau i ddileu'r rhwystrau hyn. Gadawodd rhyw draean o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

8.1. Crynodeb o'r themâu

At ei gilydd, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ffocysu ar ganfyddiad o ragfarn a gwahaniaethu yn erbyn y rhai a oedd yn rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol yn ein proses addasrwydd i ymarfer neu'r sector fferylliaeth yn ei gyfanrwydd, yn enwedig mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol o gefndir BAME. Ochr yn ochr â'r sylwadau hyn, fe nododd lleiafrif bach o ymatebwyr rhwystrau penodol i ymgysylltu, gan awgrymu sut i leihau rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig neu nodi ffyrdd o ddileu rhwystrau i'r grwpiau hyn yn fwy cyffredinol.

Nodir isod y themâu a welwyd yn yr ymatebion, yn nhrefn amllder, fel y nodir yma:

- Rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau a wynebwr gan weithwyr proffesiynol o gefndir BAME
- Dylai cyfansoddiad staff y CFfC fod yn fwy amrywiol
- Unigolion eraill sy'n profi rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau penodol
- Mae rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau i ymgysylltu yn anochel
- Awgrymiadau eraill i ddileu rhwystrau i ymgysylltu a lleihau rhagfarn a gwahaniaethu.

8.2. Rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau a wynebir gan weithwyr proffesiynol o gefndir BAME

Dyweddod nifer fawr o ymatebwyr fod gweithwyr proffesiynol o gefndir BAME yn profi rhagfarn a gwahaniaethu yn ein proses addasrwydd i ymarfer. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag ymatebwyr unigol.

Yn fwy penodol, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y cyfraddau atgyfeirio uwch ar gyfer pryderon am weithwyr proffesiynol o gefndir BAME, o'u cymharu â'u cymheiriaid gwyn. Aed â'r pwynt hwn ymhellach gan rai ymatebwyr a awgrymodd fod y cyfraddau atgyfeirio anghymesur yn symptom o ragfarn ymwybodol ac anymwybodol sylfaenol yn ein cymdeithas. Dywedodd llond llaw o ymatebwyr fod gweithwyr proffesiynol o gefndir BAME yn cael eu gorgynrychioli yn ein hymchwiliadau a'n gwrandawiadau, o'u cymharu â'u cyfran o'r gofrestr. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod lleiafrifoedd ethnig yn cael canlyniadau anghymesur a mwy difrifol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai gwahaniaethau diwylliannol greu rhwystrau i ymgysylltu i weithwyr proffesiynol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac effeithio ar y deilliannau a gânt. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai normau a gwerthoedd diwylliannol ddylanwadu ar sut mae gweithiwr proffesiynol o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn delio â honiadau neu i ba raddau y byddai'n barod i ofyn am gymorth.

8.3. Dylai cyfansoddiad staff y CFC fod yn fwy amrywiol

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr unigol y dylai gweithlu'r CFC fod yn fwy amrywiol, er mwyn lleihau rhagfarn a gwahaniaethu yn ein proses addasrwydd i ymarfer yn ogystal â mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol a wynebir gan weithwyr proffesiynol sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol. Yn benodol, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn y dylai mwy o unigolion o gefndiroedd BAME fod ar baneli addasrwydd i ymarfer. Ar nodyn tebyg, credai rhai ohonynt y dylai rhagor o unigolion o gefndiroedd BAME fod yn rhan o gronfa'r CFC o weithwyr achos ac uwch arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r Cyngor.

8.4. Unigolion eraill sy'n profi rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau penodol

Ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd BAME, cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o unigolion eraill sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a oedd yn profi rhagfarn a gwahaniaethu neu'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu. Mae'r grwpiau hyn wedi eu nodi isod.

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y gwahaniaethir yn erbyn rhai gweithwyr proffesiynol neu eu bod yn profi rhwystrau i ymgysylltu oherwydd eu rhyw neu eu rhywedd.
- Tynnodd llond llaw o ymatebwyr sylw at rwystrau penodol i ymgysylltu i rai ag anabledau, gan gynnwys anawsterau cyfathrebu a diffyg ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl yn y CFC, neu nodi bod gweithwyr proffesiynol anabl yn profi rhagfarn a gwahaniaethu.
- Nododd llond llaw o ymatebwyr fod rhai gweithwyr proffesiynol yn wynebu rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau i ymgysylltu oherwydd eu hoedran.
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffordd yr oedd gweithwyr proffesiynol yn profi rhagfarn a gwahaniaethu oherwydd eu gwerthoedd neu gredoau crefyddol.

8.5. Mae rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau i ymgysylltu yn anochel

Roedd llond llaw o ymatebwyr unigol o'r farn bod rhagfarn, gwahaniaethu a rhwystrau i ymgysylltu yn anochel i rai pobl neu grwpiau. Yn gyffredinol, roedd canfyddiad yn eu plith fod rhagfarn a

gwahaniaethu yn nodweddion o'r ddynol ryw neu'n gynnyrch naturiol gan gymdeithas amlddiwylliannol, na ellid ei ddileu.

8.6. Awgrymiadau eraill i ddileu rhwystrau i ymgysylltu a lleihau rhagfarn a gwahaniaethu

Argymhellodd ychydig iawn o ymatebwyr y dylai'r CFFC asesu pryderon yn ddall. Yn syml, byddai hyn yn golygu na fyddai'r rhai sy'n ymchwilio ac yn gwneud penderfyniadau am addasrwydd gweithiwr fferyllol i ymarfer yn gallu cael gafael ar wybodaeth am unrhyw un o'u nodweddion personol neu warchoddedig.

Cynigiodd ychydig iawn o ymatebwyr y dylai'r CFFC gyhoeddi dadansoddiad o ganran eu gweithlu sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol.

9. Gwrandawiadau o bell

Yn ystod y pandemig rydyn ni wedi dysgu y gall gwrandawiadau o bell fod yn effeithiol mewn rhai amgylchiadau. Rydyn ni am ddeall mwy ynghylch pryd y gellid eu defnyddio a pha effaith y gallent ei chael.

Tabl 13: Barn ar barhau â gwrandawiadau o bell

C14. Ydych chi'n meddwl y byddai parhau â gwrandawiadau o bell yn:	N a % o unigolion a ymatebodd 'Byddai'	N a % o sefydliadau a ymatebodd 'Byddai'	Cyfanswm N a % a ymatebodd 'Byddai'
Rhoi unrhyw un o dan anfantais?	65 (40%)	16 (73%)	81 (44%)
Cyflwyno risg i wrandawriad teg?	68 (42%)	14 (64%)	82 (44%)
Fod o fudd i'r rhai sy'n rhan ohonyn nhw?	89 (55%)	19 (86%)	108 (58%)
Cyfanswm N yr ymatebion:	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Yn gyffredinol, nododd cyfran uwch o sefydliadau nag o unigolion y byddai parhau â gwrandawiadau o bell yn rhoi rhai pobl o dan anfantais (73% vs 40%), yn cyflwyno risgiau i wrandawriad teg (64% vs 42%) ac yn fanteisiol mewn rhai ffyrdd i bobl oedd yn rhan ohonyn nhw (86% vs 55%).

Roedd cyfran gyfartal o'r holl ymatebwyr (44%) yn meddwl y byddai parhau â gwrandawiadau o bell yn rhoi rhai pobl dan anfantais, ac yn cyflwyno risgiau i wrandawriad teg. Fodd bynnag, roedd cyfran ychydig mwy o'r holl ymatebwyr (58%) teimlo y byddai hefyd yn dod â manteision i'r rhai oedd yn rhan o wrandawiadau o'r fath.

Rhoddodd ychydig dros draean o'r holl ymatebwyr sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

9.1. Crynodeb o'r themâu

Cyflwynwyd dadleuon cryf ar wrandawiadau o bell, o blaid ac yn erbyn, gan yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Yn wir, roedd yn gyffredin i ymatebion unigol bwysu a mesur agweddau cadarnhaol a negyddol gwrandawiadau o bell. Roedd rhai o'r manteision allweddol y soniodd ymatebwyr amdanyn nhw'n

cynnwys hygyrchedd a hyblygrwydd gwrandawiadau o bell, a'r ffaith eu bod yn haws ymdrin â nhw. Yn ogystal, teimlai llond llaw o ymatebwyr y bydden nhw'n ddull effeithiol o gynnal gwrandawiadau. Ar y llaw arall, roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau nad oedd gwrandawiadau o bell cystal ag wyneb yn wyneb, yn bennaf oherwydd y gallen nhw greu rhwystrau i gyfathrebu effeithiol, gan gynnwys cyfathrebu di-eiriau.

Mae'r themâu yn y sylwadau wedi eu nodi isod, gan ddechrau gyda'r rhai mwyaf cyffredin a dod i ben gyda'r lleiaf cyffredin, fel y'u rhestrir yma:

- Nid yw ar-lein cystal ag wyneb yn wyneb
- Mae gwrandawiadau o bell yn hygyrch, yn hyblyg ac yn effeithiol
- Problemau gyda thechnoleg
- Mae gwrandawiadau o bell yn haws delio â nhw
- Lleihau costau ac adnoddau
- Dylid rhoi dewis i'r rhai sy'n gysylltiedig
- Bydd angen gwneud y trefniadau angenrheidiol.

9.2. Nid yw ar-lein cystal ag wyneb yn wyneb

Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo bod gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn well na gwrandawiadau o bell. Roedd y thema hon yn llawer mwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag yn y rhai gan ymatebwyr unigol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr hyn hefyd yn derbyn bod rhai manteision i wrandawiadau o bell. Yn yr un modd, roedd llond llaw yn cydnabod, er mai gwrandawiadau wyneb yn wyneb oedd yr opsiwn gorau, y gallai gwrandawiadau o bell fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau, megis gwrandawiadau adolygu ac achosion o natur lai difrifol neu ddadleuol.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai gwrandawiadau o bell atal neu, o leiaf, rwystro cyfranogwyr rhag deall iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau. Yn yr un modd, roedd rhai'n teimlo bod gwrandawiadau o bell yn cyflwyno mwy o her i gyfathrebu llafar effeithiol, ymhlith y panel ei hun a rhwng aelodau'r pwyllgor a'r gweithiwr fferyllol proffesiynol. Aeth llond llaw o ymatebwyr â'r pwyntiau hyn ymhellach, gan awgrymu y gallai gwrandawiadau ar-lein gyflwyno heriau i asesu tystiolaeth sy'n destun dadl neu hygredd tyst.

Dadleuodd rhai ymatebwyr y gallai gwrandawiadau o bell roi gweithwyr fferyllol proffesiynol dan anfantais, yn enwedig y rhai nad oes ganddyn nhw gynrychiolaeth neu sy'n anghyfarwydd â'r broses. Tynnodd ychydig iawn o ymatebwyr sylw hefyd at y posibilrwydd y gallai'r fformat o bell arwain at ragfarn o fewn penderfyniadau'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer.

9.3. Mae gwrandawiadau o bell yn hygyrch, yn hyblyg ac yn effeithiol

Roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, o'r farn bod gwrandawiadau o bell yn hygyrch, yn hyblyg neu'n effeithiol. Yn benodol, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn fod hygyrchedd yn un o fanteision allweddol gwrandawiadau o bell, yn enwedig gan nad ydynt yn golygu teithio i swyddfa'r CFFC yn Canary Wharf. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod llawer o'r ymatebwyr hyn hefyd wedi tynnu sylw at broblemau posibl gyda gwrandawiadau o bell – y bydd y mwyaf cyffredin ohonynt yn cael eu nodi isod – neu wedi awgrymu mai dim ond mewn rhai amgylchiadau neu gyda chydysniad pawb dan sylw y bydden nhw'n briodol.

9.4. Problemau gyda thechnoleg

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran fwy o lawer o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, y gallai materion technegol, gan gynnwys cysylltiad gwael â'r rhyngwrwyd, fod yn her i gynnal gwrandawiadau o bell yn ddidrafferth ac yn deg. Yn benodol, tynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn sylw at sut y gallai gwrandawiadau o bell roi'r rhai sy'n llai technolegol fedrus, sydd â chyflymder band eang gwael neu sydd â mynediad cyfyngedig at adnoddau TG o dan anfantais. . Yn yr un modd, nododd nifer fach ohonynt y gallai anawsterau technegol effeithio'n wael ar gyfathrebu yn ystod gwrandawiad.

9.5. Mae gwrandawiadau o bell yn haws delio â nhw

Dywedodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, fod gwrandawiadau o bell yn codi llai o fraw nag y mae gwrandawiadau wyneb yn wyneb. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, gallai gwrandawiadau o bell fod yn llai o straen i weithwyr fferyllol proffesiynol a thystion fel ei gilydd, gan eu bod yn caniatáu iddynt gymryd rhan mewn amgylchedd cyfarwydd a chyfforddus, heb y straen a'r pryder ychwanegol o fynychu swyddfa'r CFC.

9.6. Lleihau costau ac adnoddau

Tynnodd llond llaw o ymatebwyr, gan gynnwys cyfran fwy o sefydliadau nag o ymatebwyr unigolion, sylw at y ffordd roedd gwrandawiadau o bell yn fwy cost-effeithiol ac effeithlon o ran adnoddau o'u cymharu â gwrandawiadau wyneb yn wyneb. Nododd llawer o'r ymatebwyr hyn na fyddai costau teithio a llety ar waith i weithwyr fferyllol proffesiynol a thystion gyda gwrandawiadau o bell. Nododd rhai ohonynt y byddai'r CFC yn arbed arian wrth gynnal gwrandawiadau o bell. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y byddai gwrandawiadau o bell yn helpu'r broses o gynnal gwrandawiadau ac achosion addasrwydd i ymarfer yn fwy cyffredinol.

9.7. Dylid rhoi dewis i'r rhai sy'n gysylltiedig

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi'r dewis o wrandawiad wyneb yn wyneb neu ar-lein i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r tystion sy'n gysylltiedig â gwrandawiad. Roedd y thema hon yn llawer amlycach ymhlith sefydliadau nag ymhlith ymatebwyr unigol. Dywedodd llond llaw o'r ymatebwyr hyn hefyd mai dim ond gyda chydysniad pawb dan sylw y dylai gwrandawiadau o bell ddigwydd.

9.8. Angen gwneud trefniadau ac addasiadau priodol

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn awgrymu neu'n datgan yn glir y byddai angen i'r CFC wneud addasiadau priodol ar gyfer y rhai a allai gael anawsterau technegol wrth gynnal gwrandawiadau o bell, neu sy'n anghyfarwydd â'r broses neu ag anabledd, megis nam ar y golwg neu anawsterau clyw. Roedd y thema hon yn llawer mwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag ymatebwyr unigol.

10. Datganiadau profiad personol

Rydyn ni am gael gwell dealltwriaeth o oblygiadau a phriodoldeb ehangach defnyddio datganiadau profiad personol – gan y bobl y mae'r pryder yn effeithio arnynt – yn y broses addasrwydd i ymarfer. Gellid ystyried y datganiadau ar unrhyw adeg, gan gynnwys yn ystod ymchwiliad, mewn pwyllgor ymchwilio, neu mewn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer.

Tabl 14: Barn ar y defnydd o ddatganiadau profiad personol yn y broses addasrwydd i ymarfer

C17. Ydych chi'n credu y dylen ni ystyried datganiadau profiad personol wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio sy'n addas?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Ydw	101 (62%)	10 (45%)	111 (60%)
Nac ydw	24 (15%)	8 (36%)	32 (17%)
Ddim yn gwybod	38 (23%)	4 (18%)	42 (23%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Roedd cyfran fwy o lawer o'r holl ymatebwyr (60%) o'r farn y dylen ni ystyried datganiadau profiad personol wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio sy'n addas o gymharu â'r rhai nad oeddent (17%). Fodd bynnag, roedd cyfran fwy o unigolion (62%) cytuno â hyn o'i gymharu â sefydliadau (45%). Roedd tua chwarter o'r holl ymatebwyr ddim yn gwybod a ddylid ystyried datganiadau profiad personol.

Rhoddodd tua dau o bob tri ymatebydd sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddiwyddiadau ymgysylltu ehangach.

10.1. Crynodeb o'r themâu

Roedd yr ymatebwyr a adawodd adborth ar y pwnc hwn yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r syniad o gyflwyno datganiadau profiad personol i broses addasrwydd i ymarfer y CFfC. Cyflwynodd nifer fawr o ymatebwyr ddadleuon o blaid y cynigion, yn fwyaf nodedig y farn y byddent yn caniatáu i'r CFfC a gweithwyr fferyllol proffesiynol ddeall effaith pryderon ar gleifion a theuluoedd. Roedd llond llaw fawr yn cyd-fynd â hyn ac yn nodi y byddai datganiadau profiad personol yn gweithio pe baent yn cael eu cymhwyso'n briodol neu i'r mathau cywir o achosion.

Yn bwysig, fodd bynnag, roedd ymatebwyr gryn bellter o gefnogi datganiadau profiad personol yn llwyr. Mynegodd lleiafrif sylweddol wrthwynebiad llwyr neu nodi pan na fyddai datganiadau profiad yn ystyriaeth briodol.

Nodir isod y themâu a oedd yn yr ymatebion, yn nhrefn eu hamlder, fel a ganlyn:

- Cefnogaeth i ddatganiadau profiad personol
- Dim ond os cân nhw eu defnyddio'n briodol y bydd datganiadau profiad personol yn gweithio
- Nid yw datganiadau profiad personol yn briodol
- Mae datganiadau profiad personol yn rhy oddrychol
- Effaith negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol
- Sylwadau eraill.

10.2. Cefnogaeth i ddatganiadau profiad personol

Roedd llawer o ymatebwyr, gyda chyfran mwy o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, yn dadlau y byddai datganiadau profiad personol yn arf defnyddiol neu y byddai ganddynt rôl bwysig i'w chwarae ym mhroses addasrwydd i ymarfer y CFfC. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod lleiafrif sylweddol o'r

ymatebwyr hyn hefyd wedi rhybuddio mai dim ond o'u defnyddio'n briodol neu o dan yr amgylchiadau cywir y byddai datganiadau profiad o werth (gweler adran 10.3).

Yn fwy penodol, pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd deall yr effaith y cafodd y digwyddiad neu'r gwall a arweiniodd at y pryder ar y claf a'i deulu, o safbwynt y gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r CFFC. Datblygodd rhai ymatebwyr y syniad hwn ymhellach, gan awgrymu y gallai datganiadau profiad personol helpu gweithwyr proffesiynol i ddysgu ac adfyfrio ar eu camgymeriadau. Ar nodyn tebyg, awgrymodd llond llaw y dylid rhoi llais i gleifion a theuluoedd yn y broses addasrwydd i ymarfer.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y byddai datganiadau profiad personol yn rhoi darlun cyflawn neu lawnach i'r CFFC o'r pryder. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai casglu profiad y claf a'r effaith arno yn cefnogi dull o ymchwilio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

10.3. Dim ond os cân nhw eu defnyddio'n briodol y bydd datganiadau profiad personol yn gweithio

Awgrymodd rhai ymatebwyr neu nodwyd yn glir mai dim ond os cân nhw eu defnyddio'n briodol y bydd datganiadau profiad personol yn effeithiol. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau fel hyn. Cafodd y farn hon ei mynegi yn eithaf aml hefyd yn y digwyddiadau a'r cyfarfodydd ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Fodd bynnag, roedd barn ymatebwyr yn gwahaniaethu o ran sut a phryd yn union y byddai'n briodol ystyried datganiadau profiad personol. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn, er enghraifft, yn teimlo na fyddai datganiadau profiad personol yn ystyriaeth briodol wrth benderfynu ar ganlyniad achos. Roedd hyn yn aml ar sail canfyddiad nad yw datganiadau profiad personol yn ffynonellau tystiolaeth dibynadwy, yn enwedig oherwydd eu goddrychedd. Ar y llaw arall, awgrymodd rhai ohonyn nhw mai dim pe baent yn cael eu hasesu a'u harchwilio'n ofalus, gan gynnwys ystyried y cyd-destun y digwyddodd y digwyddiad ynddo, y byddai datganiadau profiad personol yn gweithio.

Tynnodd llond llaw o'r ymatebwyr hyn sylw at bwysigrwydd cymryd datganiadau yn gynnar yn y broses addasrwydd i ymarfer, gan y gallai gwahaniaeth mawr mewn amser rhwng y digwyddiad a'r datganiad effeithio ar gywirdeb y datganiad. At hynny, nododd rhai y dylai datganiadau profiad personol fod yn seiliedig ar ffeithiau, yn hytrach nag yn emosiynol eu natur.

10.4. Nid yw datganiadau profiad personol yn briodol

Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran ychydig yn uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, yn dadlau na fyddai datganiadau profiad personol yn briodol i'w hystyried, naill ai wrth benderfynu pa gamau gweithredu rheoleiddiol oedd eu hangen nac ar unrhyw adeg yn y broses addasrwydd i ymarfer. Lleiswyd y farn hon yn aml hefyd gan gyfranogwyr yn y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr hyn y dylai ymchwiliadau a phenderfyniadau addasrwydd i ymarfer fod yn seiliedig ar ffeithiau a thystiolaeth, yn hytrach na datganiadau emosiynol. Soniodd rhai ohonynt y gallai datganiadau profiad personol roi disgwyliadau afrealistig i'r person a gododd y pryder a'i deulu o amcanion a phwrpas addasrwydd i ymarfer a'r dylanwad sydd ganddynt ar y canlyniad. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd y gallai datganiadau profiad personol gyflwyno anghysondeb i ddeilliannau addasrwydd i ymarfer a bod hyn yn fater allweddol.

10.5. Mae datganiadau profiad personol yn rhy oddrychol

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran ychydig yn uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, y byddai datganiadau profiad personol, neu y gallent, fod yn rhy oddrychol neu emosiynol. Ar y

cyfan, mynegwyd y pwynt hwn fel y sail resymegol y tu ôl i'r farn na ddylai datganiadau profiad gael lle ym proses addasrwydd i ymarfer y CFFC. Fodd bynnag, cododd lleiafrif bach y mater hwn fel rhybudd mai dim ond pe baen nhw'n cael eu defnyddio'n briodol y bydden nhw'n gweithio.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn hyd yn oed y gallai'r rhai sy'n ysgrifennu cyfrifon personol fod yn dueddol o orliwio effaith digwyddiad a allai, yn ei dro, arwain at ddatganiadau profiad yn dylanwadu gormod ar ganlyniadau pryderon addasrwydd i ymarfer.

10.6. Effaith negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol

Roedd llond llaw o ymatebwyr o'r farn y byddai cyflwyno datganiadau profiad personol yn effeithio'n negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd y thema hon llawer yn amlycach ymhlith sefydliadau nag ymhlith ymatebwyr unigol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn yn pryderu y gallai datganiadau profiad personol ragfarnu'r broses addasrwydd i ymarfer yn erbyn gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn enwedig yng ngoleuni eu natur emosiynol. Hefyd honnodd rhai ohonyn nhw y gallai datganiadau manwl ac emosiynol bwysu'n drwm ar y gweithiwr fferyllol proffesiynol, gan arwain at fwy o bryder a straen emosiynol.

10.7. Sylwadau eraill

Cododd ymatebwyr sawl pwynt arall mewn perthynas â datganiadau profiad personol, yn ogystal â'r rhai a drafodwyd eisoes, mae'r rhai mwyaf cyffredin wedi'u nodi isod.

- Cynigiodd rhai ymatebwyr unigol, os bydd y CFFC yn cyflwyno datganiadau profiadau personol gan y person a gododd y pryder, y dylen ni hefyd ystyried profiad y gweithiwr fferyllol proffesiynol.
- Teimlai llond llaw o ymatebwyr na fyddai datganiadau profiadau personol ond yn addas i achosion penodol. Nid oedd consensws ymysg yr ymatebwyr hyn, fodd bynnag, ar ba achosion y byddai datganiadau profiad yn briodol ar eu cyfer.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, am ragor o wybodaeth am y cynnig hwn. Yn benodol, gofynnodd ymatebwyr faint o bwysau fyddai gan ddatganiadau wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio i'w rhoi ar waith, a fydden nhw'n ddatganiadau ffeithiol neu'n seiliedig ar emosiwn a theimlad, ac a fyddai gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cael cyfle i ymateb.

11. Deall profiadau pobl sydd wedi bod yn gysylltiedig â phryder

Rydyn ni wedi ymrwmo at wella, a dysgu gan brofiad pobl o fod yn rhan o'r broses mynegi pryderon. Rydym ni'n gwybod y gallwn ni wella'r ffordd rydym ni'n cyfathrebu â phobl drwy gydol ein proses i gael adborth gan bawb dan sylw.

Yn yr arolwg, gofynnodd ni i ymatebwyr **'Pa ddulliau fyddai'n effeithiol o ran cael adborth gan bobl sydd wedi mynegi pryder neu bobl y mynegwyd pryder yn eu cylch, a deall profiad y bobl hynny?'** Nid oedd unrhyw ddata meintiol i'w adrodd, felly.

Atebodd tua thri chwarter yr holl ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

11.1. Crynodeb o'r themâu

Nododd ymatebwyr llond llaw o dulliau penodol ar gyfer casglu adborth yn effeithiol gan aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer. Roedd y prif awgrymiadau a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys cyfweliadau, sgysiau a dulliau ysgrifenedig o adborth, arolygon, holiaduron a ffurflenni adborth amlaf.

Mae'r themâu hyn wedi eu nodi a'u dadansoddi isod, yn nhrefn amllder, ac yna ceir crynodeb o'r sylwadau a grybwyllwyd yn llai aml yn yr ymatebion, fel y rhestrir yma:

- Cyfweliadau a sgysiau
- Adborth ysgrifenedig
- Sylwadau eraill.

11.2. Cyfweliadau a sgysiau

Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn credu bod cyfweliadau a sgysiau, gan gynnwys galwadau ffôn, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a sesiynau fideo ar-lein, yn ffyrdd effeithiol o gasglu adborth gan y rhai sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer. Cododd y thema hon lawer yn amlycach ymhlith sefydliadau nag ymhlith ymatebwyr unigol. Pwysleisiodd llond llaw o'r ymatebwyr hyn hefyd y byddai trafodaethau wyneb yn wyneb yn well na chyfarfodydd ar-lein, galwadau ffôn ac ymatebion ysgrifenedig. At hynny, nododd rhai y dylai'r arolygwyr hwyluso'r cyfweliadau neu'r trafodaethau gyda rhanddeiliaid.

11.3. Adborth ysgrifenedig

Dywedodd llawer o ymatebwyr y gallai pobl sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer rannu eu profiadau drwy ffurflenni adborth, holiaduron, arolygon neu fathau eraill o adborth ysgrifenedig, gan gynnwys datganiadau adfyfyrion, e-byst, negeseuon testun ac adroddiadau. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau o'r fath.

O'r ymatebwyr hyn, pwysleisiodd rhai mai dim ond pe baent wedi'u cynllunio'n dda; a'u bod yn glir, yn syml, ac yn hawdd eu deall a'u cwblhau y bydden nhw'n effeithiol. Soniodd llond llaw ohonyn nhw'n benodol y dylai'r arolygwyr neu'r holiadur fod ar gael ar-lein. Awgrymwyd gan rai ohonynt hefyd y dylai holiaduron, arolygon neu adborth ysgrifenedig arall gael eu dilyn gan gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu alwadau ffôn, neu y dylai'r rheiny gael eu cynnig.

11.4. Sylwadau eraill

Ochr yn ochr â'r themâu a uchod, cododd ymatebwyr nifer o sylwadau eraill mewn perthynas â chael adborth gan y rhai sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer. Nodir y themâu mwyaf cyffredin o'r ymatebion hyn isod.

- Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran ychydig yn fwy o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, yn awgrymu neu'n datgan yn glir y dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd allu rhoi adborth drwy eu dewis ddull.
- Pwysleisiodd llond llaw o ymatebwyr y dylai adborth fod yn ddiennw neu gael ei gyflwyno drwy drydydd parti. Roedd y thema hon yn llawer mwy cyffredin yn ymatebion sefydliadau nag yn rhai'r ymatebwyr unigol.

- Soniodd nifer fach o ymatebwyr yn benodol pryd y dylem gael adborth gan ein rhanddeiliaid. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn bwysigrwydd gofyn am adborth fel mater o drefn drwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, roedd lleiafrif mawr o farn groes i hynny, gan awgrymu y dylid casglu adborth wedi i bryder ddod i ben.
- Awgrymodd ychydig iawn o ymatebwyr y dylai dull y CFFC o gasglu adborth gwmpasu ystod o ddulliau, yn hytrach nag un neu ddau ar wahân.

12. Ystyried y cyd-destun ehangach wrth asesu a rheoli pryderon

Byddwn yn ystyried y cyd-destun ehangach y mae'r gweithiwr proffesiynol yn gweithio ynddo ac yn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o reoli'r pryder. Credwn, os gallwn ddeall y cyd-destun yn well, yna gallwn wybod yn sicrach a oes pryder addasrwydd i ymarfer o gwbl, neu a fyddai'n well ymdrin â'r mater mewn ffordd arall, er enghraifft drwy ein harolygiadau.

Tabl 15: Barn ar ein cynnig i ystyried y cyd-destun ehangach wrth asesu a rheoli pryderon

C20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cyd-destun ehangach y mae gweithiwr proffesiynol yn gweithio ynddo fod yn ffactor arwyddocaol wrth asesu pryder?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Cytuno'n gryf	80 (49%)	15 (68%)	95 (51%)
Cytuno	62 (38%)	5 (23%)	67 (36%)
Ddim yn cytuno na'n anghytuno	15 (9%)	2 (9%)	17 (9%)
Anghytuno	2 (1%)	0 (0%)	2 (1%)
Anghytuno'n gryf	2 (1%)	0 (0%)	1 (1%)
Ddim yn gwybod	3 (2%)	10 (<1%)	3 (2%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Roedd y rhan fwyaf o'r holl ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf (51%) neu'n cytuno (36%) y dylai'r cyd-destun ehangach fod yn ffactor arwyddocaol wrth asesu pryder. Roedd cyfran fwy o sefydliadau yn cytuno'n gryf (68%) o'i gymharu ag unigolion (49%). Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Rhoddodd tua dau o bob tri ymatebydd sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

12.1. Crynodeb o'r themâu

Ystod fach o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r sylwadau ar y pwnc hwn. Yr ymateb mwyaf cyffredin, o bell ffordd, oedd bod ystyried cyd-destun wrth asesu a rheoli pryderon yn syniad da. Y farn arall a fynegwyd yn aml oedd y dylai cyflogwyr a pherchnogion gymryd mwy o gyfrifoldeb.

Mae dadansoddiad o'r themâu hyn isod, wedi eu cyflwyno yn nhrefn amllder, gyda detholiad ar y diwedd o'r themâu ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau, fel y rhestrir yma:

- Cefnogaeth i ystyried cyd-destun
- Dylai cyflogwyr a rheolwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb
- Sylwadau eraill.

12.2. Cefnogaeth i ystyried cyd-destun

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, yn dadlau bod ystyried y cyd-destun ehangach yn syniad da. Yn benodol, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr y gall amgylcheddau gwaith a ffactorau cyd-destunol eraill chwarae rhan allweddol mewn pryderon neu effeithio'n sylweddol ar ymddygiad ac ymarfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. At hynny, awgrymodd llond llaw o ymatebwyr y byddai'n decach i weithwyr fferyllol pe bai'r cyd-destun yr oedden nhw'n gweithio ynddo yn cael ei ddeall wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio i'w rhoi ar waith. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael y darlun llawn ynghylch pryder hefyd gan rai ymatebwyr, ac roedd eraill yn nodi y gallai ystyried y cyd-destun ehangach amlygu problemau sy'n rhai corfforaethol eu natur neu'n ymwneud â'r system yn ehangach.

12.3. Dylai cyflogwyr a rheolwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb

Awgrymodd rhai ymatebwyr neu nodi'n glir y dylai cyflogwyr a rheolwyr fferyllfeydd gymryd mwy o gyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch cleifion ac am eu rôl yn y digwyddiadau a'r gwallau a nodir mewn pryderon. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag o ymatebwyr unigol. Yn gyffredinol, yn eu barn nhw, mae cyflogwyr a rheolwyr yn aml yn gosod disgwyliadau afrealistig ar weithwyr fferyllol proffesiynol neu'n creu amgylcheddau gwaith heriol, a dylid eu dwyn i gyfrif am hynny.

12.4. Sylwadau eraill

Gadawodd ymatebwyr nifer o sylwadau eraill ar y pwnc hwn ochr yn ochr â'r rhai uchod, a chyflwynir y rhai mwyaf cyffredin isod.

- Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran ychydig yn uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, yn gyffredinol groesawu'r syniad o ystyried y cyd-destun ehangach.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr mai dim ond mewn rhai achosion y dylid ystyried y cyd-destun ehangach. Nid oedd cytundeb ymysg yr ymatebwyr hyn, fodd bynnag, ynghylch pa fath yn union o achosion y byddai'r cyd-destun ehangach yn briodol ar eu cyfer.
- Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cyfle hwn i annog y CFC i gefnogi gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi cael pryderon wedi eu codi yn eu cylch.

13. Gwella'r ffordd rydyn ni'n rhoi cymorth i gleifion a'r cyhoedd

Rydyn ni'n bwriadu gwella ein gwefan, deunyddiau ein gwefan (arweiniad ynghylch yr hyn rydyn ni'n ymdrin ag ef a chanllawiau ar gyfer tystion) a'n ffurflen ar-lein ar gyfer mynegi pryder. Mae hyn er mwyn gwella'r cymorth rydyn ni'n ei roi i gleifion a'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r broses addasrwydd i ymarfer.

Yn yr arolwg, gofynnnon ni i ymatebwyr **'Oes unrhyw ddulliau eraill, heb eu nodi yn ein cynigion, y gallen ni eu defnyddio i roi cymorth i gleifion a'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r broses addasrwydd i ymarfer?'** Nid oedd unrhyw ddata meintiol i'w adrodd, felly.

Gadawodd rhyw draean o'r holl ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddiwyddiadau ymgysylltu ehangach.

13.1. Crynodeb o'r themâu

Cynigiodd ymatebwyr nifer o argymhellion penodol ar sut y gallai'r CFFC roi cymorth i gleifion ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer. Yr awgrym a roddwyd amlaf oedd creu a lledaenu gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer, ac wedyn cynigion yn ymwneud â chymorth ar-lein. Yn ogystal, dywedodd rhai ymatebwyr fod angen gwella'r system bresennol ar gyfer codi pryderon.

Mae'r argymhellion hyn yn cael eu trafod ymhellach isod, yn nhrefn amllder, ac mae crynodeb o'r sylwadau a grybwyllwyd yn llai aml, fel a ganlyn:

- Gwybodaeth i helpu i godi ymwybyddiaeth o addasrwydd i ymarfer
- Cymorth ar-lein
- Problemau'n ymwneud â'r system bresennol ar gyfer codi pryder
- Sylwadau eraill.

13.2. Gwybodaeth i helpu i godi ymwybyddiaeth o addasrwydd i ymarfer

Roedd rhai ymatebwyr yn annog y CFFC i gynhyrchu a rhannu gwybodaeth sy'n gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o addasrwydd i ymarfer ymhlith cleifion a'r cyhoedd. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau o'r math hwn. Roedd y thema hon hefyd yn amlwg yn yr adborth a gafwyd yn ystod y grwpiau ffocws cyhoeddus. Yn benodol, awgrymodd yr ymatebwyr hyn y dylen ni ddatblygu a darparu gwybodaeth am:

- sut i godi pryderon;
- sut rydyn ni'n rheoli pryderon, gan gynnwys amserlen o sut mae achosion yn symud yn eu blaen;
- rôl a phwrpas addasrwydd i ymarfer;
- beth yw mater addasrwydd i ymarfer; a
- chanlyniadau tebygol, er mwyn helpu i reoli disgwyliadau.

Aeth llond llaw o ymatebwyr mor bell â dweud y dylai deunyddiau copi caled ar addasrwydd i ymarfer, yn enwedig o ran codi pryderon, megis poster, taflenni a bwletinâu, fod ar gael mewn fferyllfeydd.

13.3. Cymorth ar-lein

Nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran fwy o ymatebwyr unigol na sefydliadau, y dylai'r CFFC roi cymorth i gleifion a'r cyhoedd drwy ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Yn fwy penodol, awgrymodd llond llaw y dylen ni wneud gwelliannau cyffredinol i'r wefan. Roedd hyn yn cynnwys cywiro dolenni diffygiol, cyflwyno gwahanol fathau o gyfryngau ar gyfer pobl ag anableddau a gwneud y wefan yn llai geiriol, gyda mwy o wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn tablau, graffeg a siartiau llif.

Cynigiodd ychydig o ymatebwyr y dylid datblygu adnoddau fideo ar gyfer y wefan ar bynciau fel addasrwydd i ymarfer a rôl fferyllwyr. Cynigiodd un ymatebydd hefyd y dylai'r CFFC gynnal mwy o ddiwyddiadau allgymorth ar-lein, gan gynnwys gweminarau a sesiynau hyfforddi ar-lein.

13.4. Problemau'n ymwneud â'r system bresennol ar gyfer codi pryder

Nododd ymatebwyr hefyd fod lle i wella system bresennol y CFfC ar gyfer codi pryderon. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau na'r rhai gan ymatebwyr unigol. O'r rhai a gododd y pwynt hwn, nododd rhai y ffurflen pryderon ar-lein yn benodol, gan nodi ei bod yn wael ac yn rhwystr i ymgysylltu.

13.5. Sylwadau eraill

Cafodd yr awgrymiadau canlynol ar sut y gallen ni roi cymorth i gleifion a'r cyhoedd eu cyflwyno gan leiafrif bach o ymatebwyr, ond roedden nhw'n cynrychioli themâu cyffredin yn yr ymatebion:

- Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr y dylen ni ymgysylltu â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid – gan gynnwys byrddau iechyd, grwpiau cynrychioli cleifion a sefydliadau cymorth eraill i gleifion – i godi ymwybyddiaeth o addasrwydd i ymarfer a sut i godi pryderon yn ogystal â deall mwy am sut y gallen ni gefnogi cleifion a gweithwyr fferyllol proffesiynol. Roedd y thema hon yn fwy cyffredin yn yr ymatebion gan sefydliadau nag ymatebwyr unigol.
- Argymhellodd rhai ymatebwyr y dylen ni gyfeirio cleifion a'r cyhoedd at ffynonellau priodol o gymorth a chynghor, megis grwpiau eiriolaeth cleifion, llwybrau eraill i fynd ar drywydd pryderon, safleoedd sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am fferylliaeth a ble i wneud cwyn am y CFfC.


Ochr yn ochr â'r awgrymiadau a uchod, gadawodd rhai ymatebwyr adborth mwy cyffredinol, gan gynnwys:

- Mynegodd rhai ymatebwyr gymeradwyaeth gyffredinol i'r cynllun i wella ein gwefan, deunyddiau'r wefan a'r ffurflen codi pryder ar-lein.
- Tynnodd ychydig iawn o ymatebwyr sylw at fesurau cefnogol y gellid eu cyflwyno, gan gynnwys datblygu adnoddau hyfforddi, i roi cynghor dychwelyd i'r gwaith i weithwyr fferyllol proffesiynol, cymorth iechyd meddwl ac arweiniad i weithwyr fferyllol proffesiynol heb gynrychiolaeth.

14. Effaith y newidiadau arfaethedig ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol

Rydyn ni am ddeall a allai ein cynigion effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Ffigur 1: Barn yr ymatebwyr i gyd (N = 185) ar a yw ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.



Doedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddim yn gwybod pa fath o effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn credu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig.

Priodasau a phartneriaeth sifil oedd y nodwedd warchoddedig lle'r oedd y nifer fwyaf o ymatebwyr yn credu amlaf na fyddai unrhyw effaith (31%). Y nodwedd warchoddedig roedd ymatebwyr yn credu amlaf y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol arnynt oedd hil.

Mae dadansoddiad llawn o ymatebion unigolion a sefydliadau i'r cwestiwn hwn ar gael yn **Atodiad 5**.

Rhoddodd tua hanner o'r ymatebwyr sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

14.1. Crynodeb o'r themâu

Roedd ymatebwyr a adawodd sylwadau wedi'u rhannu o ran eu barn ar yr effaith y byddai ein cynigion yn ei chael ar y grwpiau a nodwyd uchod. Er bod rhai ymatebwyr yn awgrymu y byddai neu y gallai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar bob un neu un o'r grwpiau hyn, nododd cyfran debyg y byddai'r effaith fwyaf tebygol yr debyg i'r grwpiau hyn i gyd. Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn credu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn nodi'r themâu oedd yn y sylwadau, yn nhrefn amllder, fel y'u cyflwynir yma:

- Effaith gadarnhaol ar unigolion yn rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig penodol
- Bydd yr effaith yr un fath ar bawb, waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig
- Effaith negyddol ar unigolion yn rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig penodol
- Rhagfarn a gwahaniaethu ar sail hil
- Asesiadau dall.

14.2. Effaith gadarnhaol ar unigolion yn rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig penodol

Mynegodd llond llaw o ymatebwyr y byddai neu y gallai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar y bob un neu un o'r grwpiau a nodwyd uchod. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau o'r math hwn.

O'r ymatebwyr hyn, nododd llawer yn gyffredinol y gallai'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol elwa o'r cynigion. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai cynnal mwy o ymholiadau adeg brysbennu leihau gorgynrychioli'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol yn ein proses addasrwydd i ymarfer. Cyfeiriodd rhai ohonynt yn benodol at weithwyr proffesiynol o gefndir BAME, gan awgrymu y dylai'r cynigion effeithio'n gadarnhaol arnyn nhw. At hynny, awgrymodd rhai y byddai ein cynigion yn fwyaf tebygol o gael effaith gadarnhaol ar unigolion penodol oherwydd eu rhyw, rhywedd neu statws anabl.

14.3. Bydd yr effaith yr un fath ar bawb, waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr y byddai effaith ein cynigion yr un fath, neu y byddai'n fwyaf tebygol o fod yr un fath, i bawb waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig. Gadawyd y math hwn o ymateb gan gyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr unigol na sefydliadau. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd na ddylai nodweddion personol fod yn ystyriaethau perthnasol ar gyfer achosion addasrwydd i ymarfer ac y dylen nhw ganolbwyntio yn hytrach ar ffeithiau'r achos.

14.4. Effaith negyddol ar unigolion yn rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig penodol

Nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran lawer uwch o sefydliadau nag ymatebwyr unigol, y byddai ein cynigion yn effeithio'n negyddol ar un neu fwy o'r grwpiau a restrir uchod, neu y gallai hynny ddigwydd. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu y gallai unigolion hŷn, sy'n aml yn llai technolegol fedrus na'u cymheiriaid iau, fod o dan anfantais, yn enwedig os cynhelir mwy o wrandawiadau o bell. Ar y llaw arall, nododd ambell un yn fwy cyffredinol y gallai'r diwygiadau i addasrwydd i ymarfer effeithio'n negyddol ar bob grŵp a nodwyd uchod.

14.5. Rhagfarn a gwahaniaethu ar sail hil

Defnyddiodd nifer fach o ymatebwyr, gan gynnwys cyfran uwch o sefydliadau nag ymatebwyr unigol, y cyfle hwn i dynnu sylw at y modd y mae gweithwyr proffesiynol o gefndir BAME yn dioddef rhagfarn a gwahaniaethu yn ein proses addasrwydd i ymarfer. Yn benodol, cyfeiriwyd at y nifer anghymesur o bryderon am weithwyr proffesiynol o gefndir BAME a gyfeirir at y CFfC yn ogystal â'r canfyddiadau bod y gweithwyr proffesiynol hyn yn cael eu gorgynrychioli mewn achosion addasrwydd i ymarfer a bod gwneud penderfyniadau yn rhagfarnllyd yn eu herbyn.

Roedd lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr hyn hefyd yn annog y CFfC, yn gyffredinol, i archwilio ffyrdd o leihau rhagfarn a gwahaniaethu neu gyflwyno awgrymiadau penodol ar sut i gyflawni hyn, megis asesu pryderon yn ddall (gweler adran 14.6), addysg a hyfforddiant, a chasglu data ethnigrwydd am bryderon.

14.6. Asesiadau dall

Anogodd rhai ymatebwyr y CFC i ddefnyddio nodweddion personol neu warchoddedig gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd â phryderon yn eu herbyn yn ddienw, naill ai drwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer neu ar bwynt penodol, megis y pwyllgor ymchwilio neu wrandawriad. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau o'r fath.

15. Effaith y cynigion

Rydym hefyd am wybod a gaiff ein cynigion unrhyw effaith arall ar unrhyw unigolion neu grwpiau (ystyriaethau nad ydyn nhw'n ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig), er enghraifft: cleifion, perchnogion fferyllfeydd neu staff fferyllfeydd.

Tabl 16: Barn ar yr effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill

C24. Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill?	N a % unigolion	N a % sefydliadau	Cyfanswm N a %
Ydw - effaith gadarnhaol	53 (33%)	5 (23%)	58 (31%)
Ydw - effaith negyddol	7 (4%)	1 (5%)	8 (4%)
Ydw – effaith gadarnhaol a negyddol	27 (17%)	8 (36%)	35 (19%)
Dim effaith	17 (10%)	3 (14%)	20 (11%)
Ddim yn gwybod	59 (36%)	5 (23%)	64 (35%)
Cyfanswm N ymatebion	163 (100%)	22 (100%)	185 (100%)

Roedd nifer fawr o ymatebwyr (31%) gan gynnwys cyfran debyg o unigolion a sefydliadau o'r farn y byddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion neu grwpiau eraill. Fodd bynnag, o'r holl ymatebwyr, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd nad oedden nhw'n gwybod pa fath o effaith y byddai'r cynigion yn ei chael (35%). Roedd cyfran uwch o sefydliadau (36%) nag unigolion (17%) yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill.

Rhoddodd tua hanner o'r ymatebwyr sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau hyn a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu ehangach.

15.1. Crynodeb o'r themâu

Y thema fwyaf cyffredin a gafwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd y gred nad oedd yn bosibl barnu a fyddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Yn ogystal, nododd ymatebwyr nifer o unigolion neu grwpiau eraill y byddai, neu y gallai, ein cynigion effeithio'n gadarnhaol arnyn nhw, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Aeth llond llaw o ymatebwyr mor bell â dweud y byddai pawb yn elwa o'r cynigion.

Mae'r dadansoddiad isod yn nodi'r themâu ddaeth i'r amlwg, yn nhrefn amllder, fel y rhestrir yma:

- Does dim modd barnu effaith

- Effaith gadarnhaol ar weithwyr fferyllol proffesiynol
- Effaith gadarnhaol ar bawb
- Effaith gadarnhaol ar gleifion ac aelodau o'r cyhoedd
- Effaith negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol
- Sylwadau eraill.

15.2. Does dim modd barnu effaith

Mynegodd rhai ymatebwyr na allen nhw farnu a fyddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig neu ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill. Gadawodd cyfran lawer uwch o'r sefydliadau nag o'r ymatebwyr unigol sylwadau fel hyn.

Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn seiliedig ar yr argraff mai cyfyng oedd y wybodaeth am y cynigion yn y strategaeth. Ar y llaw arall, nododd rhai nad oedden nhw'n gallu barnu effaith ein cynigion os nad oedden nhw wedi effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw. Awgrymodd llond llaw o'r ymatebwyr hyn y byddai'r effaith yn dibynnu ar yr unigolyn a'i amgylchiadau. Nodwyd hefyd mai dim ond ar ôl i'r cynigion gael eu gweithredu'n llawn y gellid gweld yr effaith.

15.3. Effaith gadarnhaol ar weithwyr fferyllol proffesiynol

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai neu y dylai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Wrth esbonio pam, tynnodd lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr hyn sylw at ein hymrwymiad i symud ffocws addasrwydd i ymarfer o feio a chosbi i ddysgu a gwella. Ar y llaw arall, cyfeiriodd rhai ohonynt at yr ymrwymiad i wella ein cyfathrebu â'r rhai sy'n ymwneud â'r broses addasrwydd i ymarfer fel rheswm allweddol pam y dylid effeithio'n gadarnhaol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Tynnodd llond llaw o'r ymatebwyr hyn sylw hefyd at y cynnig i ystyried y cyd-destun ehangach wrth asesu a rheoli pryderon fel sail resymegol dros gredu pam y byddai gweithwyr proffesiynol yn elwa.

15.4. Effaith gadarnhaol ar bawb

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr y byddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar bawb, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig. Seiliodd rhai o'r ymatebwyr hyn eu hymateb ar y gred y byddai'r strategaeth yn gwella prydlondeb ein hymchwiliadau. Yn yr un ffordd, nododd rhai fod yr ymrwymiad i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheswm allweddol pam y byddai'r cynigion hyn o fudd i bawb.

15.5. Effaith gadarnhaol ar gleifion ac aelodau o'r cyhoedd

Roedd llond llaw o'r ymatebwyr o'r farn y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol ar gleifion ac aelodau o'r cyhoedd. Wrth esbonio, rhoddodd yr ymatebwyr hyn ystod eang o bwyntiau. Cafodd y newid i ddiwylliant o ddysgu a gwella, i ffwrdd o fod yn un o feio a chosbi, ei nodi gan rai ohonynt fel esboniad o'r farn hon. Roedd esboniadau eraill a roddwyd yn cynnwys y dylai'r cynigion greu proses sy'n haws ei defnyddio a chanfyddiad y byddai'r newidiadau'n arwain at gyfathrebu'n gliriach â'r rhai sy'n ymwneud â'r broses.

15.6. Effaith negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol

Awgrymodd llond llaw o ymatebwyr y byddai neu y gallai ein cynigion effeithio'n negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn fod cyfryngu'n faes sy'n peri pryder i weithwyr

proffesiynol. Roedden nhw'n teimlo y gallai'r ffordd hon o ddatrys pryderon gynyddu straen a phryder gweithwyr proffesiynol neu eithrio'r rhai sy'n llai tebygol o ymgysylltu â dulliau adferol neu fodloni'r meini prawf ar gyfer cyfryngu. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd eu bod yn teimlo y gallai datganiadau profiad personol fod yn ffynhonnell bosibl o straen a phryder, ac yn ddull a allai arwain at ragfarn ymwybodol ac anymwybodol yn ein penderfyniadau.

15.7. Sylwadau eraill

Gwnaed y sylwadau canlynol gan nifer fach o ymatebwyr ond roedden nhw'n cynrychioli themâu cyffredin yn yr ymatebion:

- Nododd rhai ymatebwyr unigol eu bod yn teimlo na ddylai ein cynigion gael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r unigolion a'r grwpiau a grybwyllir uchod, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Fodd bynnag, nododd rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd y byddai hyn yn dibynnu ar roi'r mesurau diogelu angenrheidiol ar waith er mwyn i'r rhai sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer gael eu trin yn deg.
- Defnyddiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys cyfran llawer uwch o sefydliadau nag o ymatebwyr unigol, y cyfle hwn i fynegi cefnogaeth gyffredinol i'r strategaeth yn ei chyfanrwydd neu un agwedd benodol ar y ddogfen. Roedd y cynigion a gafodd eu canmol yn cynnwys yr ymrwymiad i symud y canfyddiad o fod yn un o gorff sy'n 'plismona' ei aelodau tuag at un sy'n cyflwyno wyneb mwy dynol a'r addewid i ddeall mwy am gyfraddau atgyfeirio anghymesur ar gyfer gweithwyr proffesiynol o gefndir BAME, ymhlith eraill.
- Pwysleisiodd nifer fach o ymatebwyr unigol y dylai'r broses addasrwydd i ymarfer fod yn deg i bob unigolyn neu grŵp dan sylw.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai cyflogwyr fyddai fwyaf tebygol o elwa o'r cynigion.
- Gofynnodd ychydig iawn o ymatebwyr am ragor o wybodaeth am y pwnc hwn neu'r strategaeth yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, gofynnodd un sefydliad am eglurder pellach ar nifer yr achosion y byddai'r CFFC yn eu dargyfeirio o weithdrefnau addasrwydd i ymarfer i lwybrau llai ffurfiol, ynghyd â'r rhai na fyddent efallai'n mynd yn eu blaen i ymchwiliad o gwbl.

Atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion drafft

Adran un: Nodau a deilliannau strategol

Nodau strategol

Defnyddiwyd yr hyn a ddysgwyd gennym o'n hymgysylltiad a'n hadolygiadau i ddatblygu pedwar nod strategol a fydd yn ganolog i'r strategaeth hon. Mae'r nodau hyn yn adlewyrchu ein huchelgais i ysgogi gwelliant drwy hyrwyddo diwylliant dysgu cyfiawn er budd diogelwch cleifion a'r cyhoedd a phawb yn y sector fferylliaeth. Ein nodau strategol yw:

- cadw cleifion a'r cyhoedd yn ddiogel drwy ddefnyddio ein hystod lawn o ddulliau rheoleiddio i atal, rhagweld a datrys pryderon
- bod ag agwedd sydd â phobl yn ganolog iddi ac sy'n deg, yn gynhwysol ac yn rhydd rhag camwahaniaethu a rhagfarn
- newid y canfyddiad o feio a chosbi i fod yn un agored sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella
- ystyried cyd-destun a gweithio gydag eraill i ddelio â phroblemau yn y systemau fferylliaeth a gofal iechyd ehangach

Deilliannau strategol

Er mwyn ein helpu i werthuso a mesur llwyddiant unrhyw newidiadau a wnawn, rydym wedi nodi'r deilliannau strategol canlynol. Dyma rydyn ni'n ceisio'i gyflawni yn sgil y strategaeth hon:

- Mae cleifion a'r cyhoedd yn derbyn gofal diogel ac effeithiol oherwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer a gallant gael unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arny'n nhw i'w helpu i gyrraedd ein safonau.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn deall pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest, a bydd cydnabod unrhyw gamgymeriadau'n gyflym yn lleihau'r angen am ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.
- Mae'n hawdd mynegi pryder, a deall y broses, a'r hyn y mae'n ei olygu i bawb dan sylw.
- Mae ein penderfyniadau'n glir, yn amserol, yn rhydd rhag rhagfarn, yn gymesur ac yn ymdrin ag achos y pryder rheoleiddiol.
- Mae gweithwyr proffesiynol, cleifion, y cyhoedd ac unrhyw dystion yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan yn y broses, ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth.
- Mae ein rhanddeiliaid yn ffyddiog ein bod yn rhoi camau gweithredu priodol ar waith i ddelio â phryderon, hyd yn oed os nad ydyn ni'n agor ymchwiliad addasrwydd i ymarfer ffurfiol.
- Mae mwy o bryderon yn cael eu datrys yn ddiogel yn gynharach, drwy gymorth, adfyfrio a dysgu, heb fod angen gwrandawriad.
- Dim ond y pryderon mwyaf difrifol sy'n cyrraedd gwrandawriad.

Adran dau: Ein cynigion a sut y byddwn yn eu cyflawni

Nod Strategol 1: Cadw cleifion a'r cyhoedd yn ddiogel drwy ddefnyddio ein hystod lawn o ddulliau rheoleiddio i atal, rhagweld a datrys pryderon

Byddwn yn:

- Gwneud mwy o ymholiadau unwaith y cawn bryder i sicrhau ein bod yn ymchwilio i'r pryderon cywir ac yn delio'n gyflymach â'r rhai y gellir eu datrys drwy ddulliau amgen
- Cyflwyno ystod hyblyg o ddeilliannau i reoli rhai pryderon y tu allan i'n prosesau addasrwydd i ymarfer ffurfiol Mae'r rhain yn cynnwys darn adfyfyriol ar gyfer rhai pryderon lle mae ystyriaethau iechyd a pherfformiad, a chytundebau gwirfoddol i gefnogi gweithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â materion gyda'u hymarfer er mwyn sicrhau nad yw unrhyw risg bosibl yn datblygu'n fater diogelwch i gleifion yn y dyfodol
- Cyflwyno pecyn gwybodaeth i gefnogi gweithwyr proffesiynol sydd â materion iechyd nad ydyn nhw'n peri risg i ddiogelwch cleifion.
- Ystyried defnyddio'r broses dileu'n wirfoddol o'r gofrestr yn helaethach mewn achosion priodol.
- Trafod gyda rhanddeiliaid sut y gellid defnyddio cyfryngu fel opsiwn amgen i weithdrefnau addasrwydd i ymarfer ffurfiol
- Cefnogi cyflogwyr a'r rhai sy'n gwneud atgyfeiriadau drwy ganllawiau, offer atgyfeirio, templedi ac astudiaethau achos.

Nod Strategol 2: Bod ag agwedd sydd â phobl yn ganolog iddi ac sy'n deg, yn gynhwysol ac yn rhydd rhag camwahaniaethu a rhagfarn

Byddwn yn:

- Darparu gwell gwybodaeth am y math o bryderon rydyn ni'n ymdrin â nhw a beth mae'r broses yn ei olygu, yn ogystal ag adran well ar ein gwefan ar gyfer cyflwyno pryderon
- Adolygu ein templedi cyfathrebu yn unol â'n canllaw tôn ac arddull, ac yn dysgu gan bobl sydd wedi bod yn ymwneud â phryder.
- Datblygu *addewidion* gwasanaeth i ddisgrifio lefel y gwasanaeth y gall pobl ei disgwyl drwy gydol y broses
- Asesu anghenion pobl sy'n ymwneud â phryder fel ein bod yn deall ac yn gallu bod yn sensitif i unrhyw faterion cyfathrebu neu iechyd perthnasol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl a allai atal grwpiau ac unigolion ac un neu fwy o nodweddion gwarchodedig rhag gallu ymgysylltu'n effeithiol â ni
- Ystyried y syniad o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth leyg i gleifion, gofalgwyr neu dystion y gallai fod eu hangen arnyn nhw.
- Gwrando ar farn rhanddeiliaid am fanteision posibl parhau â rhai gwrandawiadau o bell yn y dyfodol, gan gynnwys y mathau o amgylchiadau pan allai hyn fod yn briodol.

- Cynnal prosiect peilot i gwmpasu penderfyniadau diduedd y Pwyllgor Ymchwilio
- Sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i ddeall natur materion iechyd meddwl a rheoli sgysiau yn sensitif pan fo pryder yn cael ei fynegi neu pan fo gweithiwr proffesiynol yn hunan-atgyfeirio.
- Cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau a phriodoldeb ehangach defnyddio datganiadau profiad personol yn y broses addasrwydd i ymarfer.

Nod Strategol 3: Newid y canfyddiad o feio a chosbi i fod yn un agored sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella

Byddwn yn:

- Datblygu hyb gwybodaeth i rannu mewnwelediadau a dysgu o agweddau ar addasrwydd i ymarfer i helpu i hyrwyddo diwylliant o ddysgu, adfyfrio a gwella pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.
- Cyhoeddi achosion dienw lle nad ydyn ni wedi rhoi unrhyw gamau rheoleiddio ar waith oherwydd bod camau gweithredu neu adfer lleol effeithiol wedi'u gweithredu neu am eu bod yn enghreifftiau o ddysgu da pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.
- Ceisio adborth ar wahanol adegau yn y broses a gan gyfranogwyr amrywiol i sicrhau ein bod yn gwerthuso ac yn cyson wella'r dull a ddefnyddiwn a'r wybodaeth a rannwn
- Gweithio gydag addysgwyr, myfyrwyr a hyfforddeion drwy gyflwyno canllawiau newydd ar gyfer rheoli pryderon mewn addysg a hyfforddiant. Gallai cefnogi proffesiynoldeb fel hyn arwain yn y pen draw at arferion gofal iechyd mwy effeithiol a mwy diogel, a lleihad yn nifer y pryderon a godir am weithwyr fferyllol proffesiynol.
- Archwilio sut y gallwn gysylltu ac ymgysylltu yn y ffordd fwyaf effeithiol â chyflogwyr ac addysgwyr i roi cyngor ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio teg ac adferol, i rannu dysgu ac arfer da ac i ymgorffori gwerthoedd proffesiynol.

Nod Strategol 4: Ystyried cyd-destun a gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â materion systemig

Byddwn yn:

- Ystyried y cyd-destun ehangach y mae'r gweithiwr proffesiynol yn gweithio oddi mewn iddo pan fyddwn yn asesu pryderon ac yn penderfynu ar y ffordd orau o'u rheoli
- Defnyddio pob ffynhonnell wybodaeth sydd ar gael wrth asesu'r risg i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd.
- Dysgu o arfer dda a rhannu gyda rheoleiddwyr eraill o ran ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein hymagwedd at addasrwydd i ymarfer ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio
- Gweithio gydag eraill sy'n wynebu heriau tebyg i ddysgu a mabwysiadu arfer orau i fynd i'r afael â chynrychiolaeth anghymesur o weithwyr proffesiynol BAME pan godir pryder a thrwy gydol y broses
- Parhau i wella ein dealltwriaeth o effaith ein dull gweithredu a dysgu mwy am dulliau proffesiynau gofal iechyd eraill a reoleiddir. Er enghraifft, byddwn yn gweithio gyda

rheoleiddwyr eraill i ddeall a dysgu am weithgareddau rheoleiddio sy'n deillio o'r cwsmer ac sy'n cefnogi proffesiynoldeb ac atal.

- Defnyddio ein data i nodi tueddiadau a ffactorau sy'n digwydd yn aml mewn pryderon a rhannu'r rhain ag eraill, gan gynnwys cyflogwyr a rheoleiddwyr eraill, i helpu i atal materion rhag digwydd neu gael eu hailadrodd
- Rhannu gwybodaeth gyda rheoleiddwyr eraill am yr hyn a ddysgwn o bryderon lle ceir gwaith tîm amlddisgyblaethol, neu lle mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn lleoliadau sy'n gymharol newydd iddyn nhw, mewn canolfannau meddygon teulu er enghraifft.

Atodiad 2: Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos, gan ddechrau ar 29 Hydref 2020 a dod i ben ar 22 Ionawr 2021 ac er mwyn sicrhau ein bod yn clywed gan gynifer o unigolion a sefydliadau â phosibl:

- roedd arolwg ar-lein ar gael i unigolion a sefydliadau ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedden ni hefyd yn derbyn ymatebion drwy e-bost
- trefnon ni gyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid wedi'u hanelu at weithwyr fferyllol proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, sefydliadau a phartïon eraill â diddordeb
- hyrwyddon ni'r ymgynghoriad drwy ddatganiad i'r wasg i gyfryngau'r fasnach fferyllol, drwy ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein e-fwletin Regulate.

Arolwg

Cawsom gyfanswm o **188** ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad. Roedd **163** o'r ymatebwyr hyn yn nodi eu bod yn unigolion ac ymatebodd **25** ar ran sefydliad.

O'r ymatebion hyn, roedd **185** wedi ymateb i'r arolwg ymgynghori (163 o unigolion a 22 o sefydliadau). Cwblhaodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr hyn fersiwn ar-lein yr arolwg, gyda gweddill yr ymatebwyr yn cyflwyno eu hymatebion drwy e-bost, gan ddefnyddio strwythur yr holiadur ymgynghori.

Yn ogystal ag ymatebion i'r arolwg, cawsom **dri** ymateb gan unigolion a sefydliadau yn ysgrifennu'n fwy cyffredinol am eu barn.

Digwyddiadau i randdeiliaid

Defnyddiwyd cwestiynau'r arolwg ar-lein hefyd fel strwythur i drafodaethau yn ein digwyddiadau i randdeiliaid, a galluogodd hyn ni i gasglu barn pobl, a'i chynnwys yn ein dadansoddiad o'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein, a fynychwyd gan gymysgedd o gyflogwyr, cwmnïau'r gyfraith, sefydliadau cynrychioli a chymorth a chynrychiolwyr o reoleiddwyr iechyd a gofal eraill, cyrff proffesiynol a chyrrff masnach.

Trefnwyd **dau** grŵp ffocws ar-lein i gleifion a chynhaliwyd cyfarfodydd un-wrth-un gyda **phump** corff cynrychioli na fu modd iddyn nhw fynychu unrhyw un o'n digwyddiadau eraill.

Cynhaliwyd gweminar ar-lein ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a buom yn siarad yn y Gynhadledd Fferylliaeth Glinigol ar 25 Medi 2020.

Cyfranogodd tua **65** o unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau ran yn y gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r grwpiau ffocws cyhoeddus. Mynychodd tua **1900** o weithwyr fferyllol proffesiynol ein gweminar ar-lein.

Atodiad 3: Ein dull dadansoddi ac adrodd

Trosolwg

Ystyriwyd pob ymateb a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori gan gynnwys nodiadau o ddigwyddiadau rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein dadansoddiad. Mae ein dull thematig yn ein galluogi i gynrychioli'n deg yr ystod eang o safbwyntiau a gyflwynwyd, boed wedi'u cyflwyno gan unigolion neu sefydliadau, a boed i ni eu derbyn yn ysgrifenedig, neu eu clywed mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

Elfen allweddol yr ymgynghoriad hwn oedd arolwg hunanddewis, a gynhaliwyd ar lwyfan ar-lein Smart Survey. Fel gydag unrhyw ymgynghoriad, disgwyliwn fod unigolion a grwpiau sy'n ystyried bod y cynigion yn effeithio'n arbennig arnyn nhw, neu unigolion a grwpiau sydd â barn gref ar y pwnc, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb.

Diben y dadansoddiad oedd adnabod themâu cyffredin ymhlith y rhai sy'n ymwneud â'r gweithgareddau ymgynghori yn hytrach na dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng grwpiau penodol neu is-grwpiau o ymatebwyr.

Mae'r term 'ymatebwyr' a ddefnyddir drwy gydol y dadansoddiad yn cyfeirio at y rhai a gwblhaodd yr arolwg ymgynghori a'r rhai a fynychodd ein digwyddiadau i randdeiliaid. Mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau.

Os oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y safbwyntiau a roddwyd yn yr arolwg ymgynghori a'r rhai a godwyd mewn digwyddiadau i randdeiliaid, amlygir y gwahaniaethau hyn yn y dadansoddiad.

Rhoddir manylion llawn proffil yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein yn [Atodiad 4](#).

Er tryloywder, mae [Atodiad 6](#) yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, ymatebion e-bost a/neu gyfranogi yn ein digwyddiadau i randdeiliaid.

Darperir cwestiynau'r ymgynghoriad yn [Atodiad 7](#).

Dadansoddiad meintiol

Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau meintiol megis cwestiynau ie/na a graddfeydd sgorio. Mae'r holl ymatebion wedi'u coladu a'u dadansoddi gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd drwy e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhai a ymatebodd drwy'r post neu drwy e-bost mewn ffordd fwy cyffredinol am eu barn yn cael eu hadlewyrchu yn y dadansoddiad ansoddol yn unig.

Mae'r ymatebion wedi'u haenio yn ôl y math o ymatebydd, er mwyn peidio â rhoi'r un pwysoliad ar ymatebwyr unigol a sefydliadau (a allai gynrychioli cannoedd o unigolion). Mae'r rhain wedi eu cyflwyno ochr yn ochr yn y tablau drwy gydol yr adroddiad hwn, er mwyn helpu i weld a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y categorïau hyn o ymatebwyr.

Mae'r tablau yn yr adroddiad dadansoddi hwn yn cyflwyno nifer yr ymatebwyr a ddewisodd atebion gwahanol wrth ymateb i gwestiynau'r arolwg. Mae'r dadansoddiad yn dilyn yr un drefn ag yr oedd y cwestiynau yn yr arolwg.

Dangosir canrannau heb leoedd degol ac maen nhw wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. O ganlyniad, nid yw rhai cyfansymiau'n adio i fyny i 100%. Mae'r talgrynnu hwn hefyd yn arwain at wahaniaethau o hyd at un pwynt canran wrth gyfuno dau gategori ymateb neu fwy. Cynrychiolir ffigurau o lai nag 1% gan 0%.

Roedd yr holl gwestiynau'n orfodol ac roedd gan ymatebwyr yr opsiwn o ddewis 'ddim yn gwybod'. Cyfeiriwyd ymatebwyr at gwestiynau eraill pan yn briodol er mwyn galluogi ymatebwyr i hepgor cwestiynau nad oedd yn berthnasol iddyn nhw. Nid yw ymatebion a hepgorwyd wedi'u cynnwys yn y tablau ar gyfer y cwestiynau hynny.

Mae celloedd heb ddata wedi'u marcio â dash.

Dadansoddiad ansoddol

Mae'r adroddiad dadansoddi hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion ar-lein i'r arolwg gan unigolion a sefydliadau, ymatebion e-bost a phost, a nodiadau o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Roedd natur ansoddol yr ymatebion hyn yn golygu ein bod wedi cael amrywiaeth o safbwyntiau, a rhesymegau. Ystyriwyd yr ymatebion yn ofalus drwy gydol y broses ddadansoddi.

Datblygwyd fframwaith codio i nodi gwahanol faterion a phynciau mewn ymatebion, i nodi patrymau yn ogystal â sawl gwaith y cododd rhai syniadau, ac i helpu i strwythuro ein dadansoddiad. Adeiladwyd y fframwaith o'r gwaelod i fyny drwy broses iteratid o adnabod yr hyn oedd yn deillio o'r data, yn hytrach na rhagosod fframwaith oedd wedi ei bennu cyn dadansoddi'r data.

Nodwyd sawl gwaith y cododd gwahanol safbwyntiau drwy godio ymatebion ysgrifenedig yn fanwl a dadansoddi'r adborth o ddigwyddiadau rhanddeiliaid drwy ddefnyddio'r themâu o'r fframwaith codio. Nodir pa mor aml y mynegwyd barn benodol gan ymatebwyr yn yr adroddiad hwn drwy gyflwyno themâu yn nhrefn eu hamlder. Mae'r defnydd o dermau hefyd yn dangos amlder barn, er enghraifft mae 'llawer'/'nifer fawr' yn cynrychioli'r safbwyntiau oedd â'r gefnogaeth fwyaf ymhlith ymatebwyr. Mae 'rhai'/'snifer o' yn nodi safbwyntiau a rannwyd gan nifer llai o ymatebwyr ac mae 'ychydig'/'nifer fach' yn nodi materion a godwyd gan nifer cyfyngedig o ymatebwyr yn unig. Defnyddir termau fel 'mwyafrif'/'y rhan fwyaf' pan oedd gan dros hanner o'r ymatebwyr yr un farn. DS. Nid yw'r rhestr hon o dermau yn hollgynhwysol a defnyddir termau tebyg eraill yn y naratif.

Strwythur yr arolwg ymgynghori

Strwythurwyd yr arolwg ymgynghori yn y fath fodd fel bod un neu fwy o gwestiynau penagored yn dilyn pob cwestiwn caeedig ar gynigion yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn caniatáu i bobl egluro eu rhesymu, rhoi enghreifftiau ac ychwanegu sylwadau pellach.

Er hwylustod, rydyn ni wedi strwythuro adran ddadansoddi'r adroddiad hwn yn y fath fodd fel ei bod yn adlewyrchu trefn y cynigion ymgynghori. Mae hyn wedi ein galluogi i gyflwyno ein dadansoddiad meintiol ac ansoddol o gwestiynau'r ymgynghoriad ochr yn ochr, lle mae'r dadansoddiad thematig yn cadarnhau ac yn rhoi ystyr i'r canlyniadau rhifol yn y tablau.

Atodiad 4: Proffil ymatebwyr: gan bwy y clywon ni

Roedd cyfres o gwestiynau rhagarweiniol yn gofyn am wybodaeth am leoliad cyffredinol unigolion, ac ym mha rinwedd roedden nhw'n ymateb i'r arolwg. Gyda gweithwyr fferyllol proffesiynol, gofynnwyd cwestiynau pellach i nodi a oedden nhw'n fferyllwyr, yn dechnegwyr fferyllol neu'n berchnogion fferyllfeydd, ac ym mha leoliad yr oedden nhw'n gweithio fel arfer. Gydag ymatebwyr ar ran sefydliadau, roedd cwestiynau am y math o sefydliad roedden nhw'n gweithio iddo. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'u hymatebion:

Categoriâu ymatebwyr

Tabl 17: Ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad

Ydych chi'n ymateb... (Sylfaen: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fel unigolyn	163	88%
Ar ran sefydliad	22	12%
Cyfanswm N ymatebion	185	100%

Tabl 18: Ymateb fel perchennog fferyllfa

Ydych chi'n berchennog fferyllfa? (Sylfaen: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydw	31	17%
Nac ydw	154	83%
Cyfanswm N ymatebion	185	100%

Proffil ymatebwyr unigol

Tabl 19: Gwledydd

Ble rydych chi'n byw? (Sylfaen: pob unigolyn)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Lloegr	142	87%
Yr Alban	14	9%
Cymru	4	2%
Arall	3	2%
Cyfanswm N ymatebion	163	100%

Tabl 20: Math o ymatebydd

Ydych chi'n ymateb fel: (Sylfaen: pob unigolyn)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferylllydd	117	72%
Technegydd fferyllol	32	20%
Gweithiwr cyfreithiol proffesiynol	2	1%
Aelod o'r cyhoedd	3	2%
Arall	9	6%
Cyfanswm N ymatebion	163	100%

Tabl 20: Prif fan gwaith

Sector (Sylfaen: fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferyllfa gymunedol (gan gynnwys ar-lein)	72	48%
Fferyllfa ysbyty	27	18%
Arall	15	10%
Sefydliad gofal sylfaenol	7	5%
Practis Meddygon Teulu	6	4%
Y diwydiant fferyllol	7	5%
Ymchwil, addysg neu hyfforddiant	12	8%
Arall	15	10%
Cyfanswm N ymatebion	149	100%

Tabl 21: Maint fferyllfa gymunedol

Maint y gadwyn fferyllfeydd (Sylfaen: unigolion yn gweithio mewn fferyllfa gymunedol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferyllfa annibynnol (1 fferyllfa)	13	18%
Cadwyn fferyllfeydd annibynnol (2-5 fferyllfa)	12	17%
Cadwyn fferyllfeydd luosog fach (6-25 fferyllfa)	6	8%
Cadwyn fferyllfeydd luosog ganolig (26-100 fferyllfa)	6	8%
Cadwyn fferyllfeydd luosog fawr (Dros 100 fferyllfa)	35	29%
Cyfanswm N ymatebion	72	100%

Tabl 22: Cyfranogiad yn ein proses addasrwydd i ymarfer

Ydych chi wedi bod yn rhan o'n prosesau addasrwydd i ymarfer? (Sylfaen: pob unigolyn)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydw	37	23%
Nac ydw	122	75%
Gwell gen i beidio â dweud	3	2%
Ddim yn gwybod	1	1%
Cyfanswm N ymatebion	163	100%

Proffil ymatebwyr ar ran sefydliadau

Tabl 23: Math o sefydliad

Math y sefydliad: (Sylfaen: pob sefydliad)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Sefydliad yn cynrychioli gweithiwr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferyllol	10	45%
Sefydliad neu grŵp GIG	3	14%
Arall	3	14%
Fferyllfa gofrestrdig	2	9%
Corff Rheoleiddio	2	9%
Sefydliad yn cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd	1	5%
Cwmni cyfreithiol	1	5%
Cyfanswm N ymatebion	22	100%

Tabl 24: Maint y gadwyn fferyllfeydd


Maint y gadwyn fferyllfeydd (Sylfaen: fferyllfeydd cofrestredig)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Cadwyn fferyllfeydd luosog fawr (Dros 100 fferyllfa)	1	50%
Cadwyn fferyllfeydd luosog fach (6-25 fferyllfa)	1	50%
Cyfanswm N ymatebion	2	100%

Cwestiynau monitro


Casglwyd data hefyd ar nodweddion gwarchoddedig ymatebwyr, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddiwyd ffurflen monitro cydraddoldeb y CFfC i gasglu'r wybodaeth hon, gan ddefnyddio categorïau sy'n alinio â'r cyfrifiad, neu arfer dda arall (er enghraifft ar fonitro cyfeiriadedd rhywiol). Nid oedd y cwestiynau monitro yn gysylltiedig â chwestiynau'r ymgynghoriad ac fe'u gofynnwyd er mwyn helpu i ddeall proffil ymatebwyr yr ymgynghoriad, i roi sicrwydd bod trawstoriad eang o'r boblogaeth wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad.

Atodiad 5: Effaith y newidiadau arfaethedig ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol

Ffigwr 2: Barn yr ymatebwyr unigol (N = 188) ynghylch a yw ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.



Ffigwr 3: Barn y sefydliadau (N = 188) ynghylch a yw ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.



Atodiad 6: Sefydliadau

Ymgysylltodd y sefydliadau canlynol â'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfarfodydd un-wrth-un, digwyddiadau sgwrsio ac ymatebion e-bost:

- Association of Independent Multiple Pharmacies
- Association of Pharmacy Technicians UK/Cymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU
- Blake Morgan
- Boots Pharmacists' Association
- Brabners LLP
- Capsticks LLP
- Christian Medical Fellowship
- Christians in Pharmacy
- Community Pharmacy Scotland
- Community Pharmacy Wales/Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Company Chemists' Association
- Directors of Pharmacy Group, NHS Scotland
- General Medical Council/Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Guild of Healthcare Pharmacists/Urdd Fferyllwyr Gofal Iechyd
- Health Education England
- Joint Council for Cosmetic Practitioners
- Kingsley Napley
- Morrisons
- Nursing and Midwifery Council/Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- NHS Greater Glasgow and Clyde Area Pharmaceutical Committee
- Nockolds Resolution
- Pharmaceutical Services Negotiating Committee (PSNC)
- Pharmaceutical Society of Northern Ireland
- Pharmacist Support/Cymorth Fferyllwyr
- Pharmacy Forum Northern Ireland
- Pharmacy Law & Ethics Association/Cymdeithas Cyfraith a Moeseg Fferyllol
- Professional Standards Authority/Awdurdod Safonau Proffesiynol
- Richard Nelson LLP

- Rowlands Pharmacy
- Royal Pharmaceutical Society/Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)
- RPS Action in Belonging, Culture and Diversity (ABCD) Group
- Sykes Chemists Ltd
- Tesco
- The Health and Care Professions Council/Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal
- The National Pharmacy Association/Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol
- The Pharmacists' Defence Association
- UK Black Pharmacist Association
- Ward Hadaway LLP
- Well Pharmacy/Fferyllfa Well

Atodiad 7: Cwestiynau'r ymgynghoriad

Adran un: Nodau a deilliannau strategol

Ar dudalen 12 y **ddogfen ymgynghori**, rydyn ni'n nodi pedwar amcan strategol a fydd yn llywio ein gwaith ac yn ein helpu i werthuso effaith y strategaeth.

1. O ystyried pob un o'r pedwar nod strategol, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eu bod yn briodol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

2. Oes unrhyw beth ar goll o'r nodau strategol, neu unrhyw beth y dylid ei newid?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

2a. Os oes, pa rai o'r nodau strategol canlynol sydd angen ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- cadw cleifion a'r cyhoedd yn ddiogel drwy ddefnyddio ein hystod lawn o ddulliau rheoleiddio i atal, rhagweld a datrys pryderon
- bod ag agwedd sydd â phobl yn ganolog iddi ac sy'n deg, yn gynhwysol ac yn rhydd rhag camwahaniaethu a rhagfarn
- newid y canfyddiad o feio a chosbi i fod yn un agored sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella
- ystyried cyd-destun a gweithio gydag eraill i ddelio â phroblemau yn y systemau fferylliaeth a gofal iechyd ehangach
- angen nodau ychwanegol

2b. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r diwygiadau, ychwanegiadau neu nodau ychwanegol sydd eu hangen yn eich barn chi.

Ar dudalen 12 y **ddogfen ymgynghori**, rydyn ni'n nodi wyth deilliant strategol a fydd yn llywio ein gwaith ac yn ein helpu i werthuso effaith y strategaeth.

3. O ystyried y set lawn o ddeilliannau strategol ar dudalen 12, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eu bod yn briodol?

- Cytuno'n gryf

- Cytuno
- Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

4. Oes unrhyw beth ar goll o'r deilliannau strategol, neu unrhyw beth y dylid ei newid?

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

4a. Os oes, pa rai o'r deilliannau strategol canlynol sydd angen ychwanegiadau a/neu ddiwygiadau? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Mae cleifion a'r cyhoedd yn derbyn gofal diogel ac effeithiol oherwydd bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer a gallant gael unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnyn nhw i'w helpu i gyrraedd ein safonau.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn deall pwysigrwydd bod yn agored ac yn onest, a bydd cydnabod unrhyw gamgymeriadau'n gyflym yn lleihau'r angen am ymchwiliad addasrwydd i ymarfer.
- Mae'n hawdd mynegi pryder, a deall y broses, a'r hyn y mae'n ei olygu i bawb dan sylw.
- Mae ein penderfyniadau'n glir, yn amserol, yn rhydd rhag rhagfarn, yn gymesur ac yn ymdrin ag achos y pryder rheoleiddiol.
- Mae gweithwyr proffesiynol, cleifion, y cyhoedd ac unrhyw dystion yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan yn y broses, ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth.
- Mae ein rhanddeiliaid yn ffyddiog ein bod yn rhoi camau gweithredu priodol ar waith i ddelio â phryderon, hyd yn oed os nad ydyn ni'n agor ymchwiliad addasrwydd i ymarfer ffurfiol.
- Mae mwy o bryderon yn cael eu datrys yn ddiogel yn gynharach, drwy gymorth, adfyfrio a dysgu, heb fod angen gwrandawriad.
- Dim ond y pryderon mwyaf difrifol sy'n cyrraedd gwrandawriad.
- Mae angen deilliannau ychwanegol

4b. Rhowch ddisgrifiad byr o'r diwygiadau, ychwanegiadau neu'r deilliannau ychwanegol sydd eu hangen yn eich barn chi.

Adran dau: Ein cynigion a sut y byddwn yn eu cyflawni

Rydyn ni'n cynnig gwneud mwy o ymholiadau pan fyddwn yn derbyn pryder am y tro cyntaf, i'n helpu i gasglu digon o dystiolaeth i wneud penderfyniad gwybodus am y camau mwyaf addas i'w rhoi ar waith. Nodwyd y meysydd ymholi ar dudalen 14 y ddogfen ymgynghori.

5. Ydyn ni wedi nodi'r meysydd ymholi priodol?

- Ydych
- Nac ydych
- Ddim yn gwybod

Wedi i ni gwblhau ein hymholiadau, rydyn ni hefyd yn cynnig defnyddio'r prawf canlynol i benderfynu a ddylid cyfeirio'r pryder at ymchwiliad neu a yw dewis arall yn briodol o dan yr amgylchiadau:

Ydy'r wybodaeth yn awgrymu seiliau posibl dros ymchwilio a yw'n bosibl bod nam ar addasrwydd gweithiwr fferyllol i ymarfer?

6. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y prawf arfaethedig yn briodol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

7. Esboniwch eich ymatebion i'r ddau gwestiwn uchod.

Rydyn ni'n cynnig gwahodd gweithwyr fferyllol proffesiynol mewn rhai achosion i greu darn adfyfyriol fel ffordd o reoli rhai pryderon y tu allan i'r prosesau ffurfiol. Nodir y cynnig hwn ar dudalen 14 y ddogfen ymgynghori.

8. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod hwn yn deiliant priodol ac effeithiol ar gyfer rhai pryderon?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

9. Esboniwch eich ymateb.

Dangosodd ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ein gwaith yn edrych ar reoleiddwyr eraill, y gallai cyfryngu chwarae rôl wrth ddatrys pryderon.

10. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gall cyfryngu chwarae rôl wrth ddatrys pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

11. Esboniwch eich ymateb gan gynnwys, os yn briodol, ar ba ffurf y credwch y dylai'r cyfryngu ddigwydd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, rydyn ni'n cynnig nifer o addewidion gwasanaeth sy'n nodi'r hyn y dylech ei ddisgwyl gennym. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl ar dudalennau 17 a 18 y ddogfen ymgynghori.

12. Ydych chi'n credu bod ein haddewidion gwasanaeth yn rhoi disgwyliadau clir i chi o'r gwasanaeth y byddwch yn ei dderbyn gennym ni?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

13. Esboniwch eich ymateb.

Rydyn ni am wella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau posibl a allai atal grwpiau ac unigolion rhag gallu ymgysylltu'n effeithiol â ni oherwydd un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu mesurau effeithiol i ddileu'r rhwystrau hyn. Yn benodol, rydyn ni am ddeall a yw pobl sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig yn wynebu rhwystrau penodol yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer, oherwydd y nodweddion hynny, wedi i bryder gael ei fynegi. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae nawr nodwedd warchoddedig .

- oed
- anabled
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil/ethnigrwydd
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

14. Ydych chi'n meddwl bod pobl sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion gwarchoddedig yn wynebu rhwystrau penodol yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer, oherwydd y nodwedd honno?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

14a. Os ydych, esboniwch, gan gynnwys unrhyw fesurau i ddileu'r rhwystrau hyn.

Yn ystod y pandemig rydyn ni wedi dysgu y gall gwrandawiadau o bell fod yn effeithiol, ond rydyn ni'n gwybod na ddylen nhw ddisodli ein rhai arferol. Rydyn ni am ddeall mwy ynghylch pryd y gellid eu defnyddio a pha effaith y gallent ei chael.

15. Ydych chi'n meddwl y byddai parhau â gwrandawiadau o bell:

a. yn rhoi unrhyw un dan anfantais?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

b. yn cyflwyno risg i wrandawriad teg?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

c. fod o fudd i'r rhai sydd ynghlwm wrthynt?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

16. Esboniwch eich ymateb.

Rydyn ni am gael gwell dealltwriaeth o oblygiadau a phriodoldeb ehangach defnyddio datganiadau profiad personol (gweler tudalen 19 y ddogfen ymgynghori) – gan y bobl y mae'r pryder yn effeithio arnyn nhw – yn y broses addasrwydd i ymarfer. Gellid ystyried y datganiadau ar unrhyw adeg, gan gynnwys yn ystod ymchwiliad, mewn pwyllgor ymchwilio, neu mewn gwrandawriad addasrwydd i ymarfer.

17. Ydych chi'n credu y dylen ni ystyried datganiadau profiad personol wrth benderfynu pa gamau rheoleiddio sy'n addas?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

18. Esboniwch eich ymateb.

Rydyn ni wedi ymrwymo at wella, a dysgu gan brofiad pobl o fod yn rhan o'r broses mynegi pryderon. Rydym ni'n gwybod y gallwn ni wella'r ffordd rydym ni'n cyfathrebu â phobl drwy gydol ein proses i gael adborth gan bawb dan sylw.

19. Pa ddulliau fyddai'n effeithiol o ran cael adborth gan bobl sydd wedi mynegi pryder neu bobl y mynegwyd pryder yn eu cylch, a deall profiad y bobl hynny?

Byddwn yn ystyried y cyd-destun ehangach y mae'r gweithiwr proffesiynol yn gweithio ynddo ac yn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o reoli'r pryder. Credwn, os gallwn ddeall y cyd-destun yn well, yna gallwn wybod yn sicrach a oes pryder addasrwydd i ymarfer o gwbl, neu a fyddai'n well ymdrin â'r mater mewn ffordd arall, er enghraifft drwy ein harolygiadau.

20. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cyd-destun ehangach y mae gweithiwr proffesiynol yn gweithio ynddo fod yn ffactor arwyddocaol wrth asesu pryder?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

21. Esboniwch eich ymateb.

Rydym ni'n bwriadu gwella ein gwefan, deunyddiau ein gwefan (arweiniad ynghylch yr hyn rydym ni'n ymdrin ag ef a chanllawiau ar gyfer tystion) a'n ffurflen ar-lein ar gyfer mynegi pryder. Mae hyn er mwyn gwella'r cymorth rydym ni'n ei roi i gleifion a'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r broses addasrwydd i ymarfer.

22. Oes unrhyw ddulliau eraill, heb eu nodi yn ein cynigion, y gallen ni eu defnyddio i roi cymorth i gleifion a'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r broses addasrwydd i ymarfer?

Rydym ni am ddeall a allai ein cynigion effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil/ethnigrwydd
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

23. Ydych chi'n credu y caiff ein cynigion effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig?

- Ydw - effaith gadarnhaol
- Ydw - effaith negyddol
- Ydw - effaith gadarnhaol a negyddol
- Dim effaith
- Ddim yn gwybod

Rydyn ni hefyd am wybod a gaiff ein cynigion unrhyw effaith arall ar unrhyw unigolion neu grwpiau (heb fod yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig), er enghraifft: cleifion, perchnogion fferyllfeydd neu staff fferyllfeydd.

24. Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill?

- Ydw - effaith gadarnhaol
- Ydw - effaith negyddol
- Ydw - effaith gadarnhaol a negyddol
- Dim effaith
- Ddim yn gwybod

25. Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn effaith uchod. Disgrifiwch yr unigolion neu'r grwpiau dan sylw a'r effaith y credwch y caiff ein cynigion arnynt.

Atodiad 8: Ymchwil i brofiadau o ymwneud â phroses addasrwydd i ymarfer y CFfC

Cyflwyniad

Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, comisiynwyd Community Research gennym i gynnal ymchwil ar raddfa fach i brofiadau unigolion sydd wedi bod yn rhan o'n proses addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys pobl sydd wedi codi pryderon a gweithwyr fferyllol proffesiynol. Yn fwy penodol, gofynnwyd i Community Research ystyried y canlynol:

- Beth gafodd effaith/dylanwad ar brofiadau
- Canfyddiadau o ddeunyddiau a ddarparwyd a chyfathrebu drwy gydol y broses
- Lefelau dealltwriaeth o rôl y CFfC ac addasrwydd i ymarfer ei hun
- Awgrymiadau am unrhyw welliannau i'r broses.

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys cyfres o gyfweiliadau dros y ffôn gydag wyth unigolyn a fu'n rhan o'n proses addasrwydd i ymarfer: tri gweithiwr fferyllol proffesiynol a phedwar aelod o'r cyhoedd. Nodir canfyddiadau allweddol yr ymchwil hwn isod.

Sylwadau cyffredin

Mae boddhad cyffredinol â gwasanaeth neu broses yn dibynnu ar ddisgwyliadau cychwynnol a phrofiad. Doedd gan rai pobl sydd wedi codi pryderon fawr o ddealltwriaeth o natur addasrwydd i ymarfer h.y. mae'r broses yno i asesu addasrwydd i ymarfer yn hytrach na 'chosbi' gweithwyr fferyllol proffesiynol am wneud rhywbeth o'i le neu ddatrys materion penodol. Arweiniodd y dryswch hwn o ran disgwyliadau at elfen amlwg o anfodlonrwydd â'r broses. Er hynny, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn am eu profiad ac yn canmol y cyfathrebu gan y CFfC yn benodol, o ran ei gynnwys a'i amllder.

Yn gyffredinol, mae nifer o themâu allweddol yn deillio o brofiadau cyffredin ac awgrymiadau am welliannau, fel a ganlyn:

- Roedd **hygyrchedd y gwasanaeth** yn allweddol i unigolion oedd am godi pryder – a chodwyd rhai pwyntiau am ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'r CFfC, yn ogystal â rhai materion yn ymwneud â'r offeryn ar-lein ar gyfer codi pryder.
 - Roedd hygyrchedd staff y CFfC hefyd yn bwysig i bobl a oedd wedi codi pryderon a gweithwyr proffesiynol oedd wedi mynd drwy'r broses – gyda chyswllt hwylus gyda'r swyddog achos a pharhad cyswllt yn ymddangos fel pe baent yn effeithio ar foddhad â'r broses.
- Codwyd **tryloywder y broses** hefyd yn ddigymell, o ran sicrhau bod y person a gododd y pryder a'r gweithiwr proffesiynol yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd achos ac yn cael gwybodaeth glir am y canlyniad a sut y gwnaed y penderfyniad. Roedd rhai pobl a oedd wedi codi pryderon yn aneglur ynglŷn â chanlyniad y broses ac roedd rhai wedi'u drysu gan y penderfyniad yn pen draw (a oedd yn tueddu i adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o swyddogaeth y broses addasrwydd i ymarfer).

- **Teilwra a phersonoli cyfathrebiadau.** Roedd y rhai oedd wedi codi pryderon ac yn llai bodlon â'u profiad yn teimlo nad oedd gan y cyfathrebu'n ddigon personol. Roedd hon hefyd yn feirniadaeth a wnaed gan y gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â nhw, ac a deimlai y gallai cyfathrebu gael ei bersonoli a'i deilwra mwy fel eu bod yn llai generig. Byddai hyn yn sicrhau bod derbynwyr yn gallu deall y wybodaeth allweddol, a byddai hefyd yn gwneud y broses yn fwy dynol.
 - Yn gysylltiedig â hyn mae'r alwad am **fwy o werthfawrogiad o fan cychwyn neu gyd-destun yr unigolion**. Er enghraifft, roedd rhai o'r bobl oedd wedi codi pryder yn amlwg yn agored i niwed a/neu'n ofidus oherwydd y mater yr oedden nhw'n adrodd amdano (o ran yr hyn a ddigwyddodd neu'r hyn a allai fod wedi digwydd). Roedd un o'r gweithwyr fferyllol proffesiynol yn teimlo y gallai'r CFFC fod wedi adolygu ei hachos yng nghyd-destun y sefyllfa ehangach yn ei gweithle lle teimlai ei bod yn amlwg bod problemau ehangach na'i haddasrwydd i ymarfer.
- **Mwy o gyswllt (i'r rhai sy'n dymuno hynny).** Roedd y rhai oedd wedi mynegi pryder a gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod gallu siarad â rhywun yn y CFFC ar adegau allweddol (er enghraifft, ar ddechrau'r broses neu i esbonio canlyniad) yn bwysig. Fodd bynnag, nododd un gweithiwr proffesiynol y byddai wedi cael mwy o gyswllt yn peri gofid sy'n awgrymu bod angen teilwra cyswllt at anghenion unigolion.
- Soniwyd am **gyflymder y broses** gan y gweithwyr proffesiynol y cyfwelwyd â nhw – roedd pob un ohonynt yn teimlo ei fod yn eithaf hirfaith, gan olygu bod yr achos yn 'gysgod drostyn nhwt' am gyfnod hirach nag oedd ei angen yn eu barn nhw. Soniodd nifer o'r rhai oedd wedi mynegi pryder am ganfyddiad o oedi hefyd.
- **Sicrwydd ynghylch arbenigedd y CFFC.** Soniwyd rhywfaint am yr angen am sicrwydd bod gan y CFFC arbenigedd mewn pryderon yn ymwneud â fferyllfeydd ar-lein a gweithwyr fferyllol proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal eilaidd; gyda rhagdybiaeth bod y CFFC yn fwy cyfforddus yn delio ag achosion mewn fferyllfeydd cymunedol.
- **Sicrwydd ynghylch niwtraliaeth y GPhC.** Soniodd nifer o bobl pedd wedi codi pryderon eu bod yn ansicr a fyddai'r CFFC 'ar ochr' gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r proffesiwn. Yn ôl un, cafodd y gred gychwyn hon ei chwalu gan ei phrofiad o degwch y broses.
- **Dysgu o'r broses** Roedd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn teimlo'n gryf y dylid annog gweithwyr proffesiynol sy'n mynd drwy'r broses i adfyfrio ar yr hyn a ddigwyddodd a dysgu ohono. Un o'r cymhellion allweddol i'r rhai oedd wedi codi pryderon oedd sicrhau nad oedd yr un peth yn digwydd i unrhyw un arall; roedden nhw am gael sicrwydd bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifri'; a bod problemau yn cael eu datrys a gwersi'n cael eu dysgu.

Canfyddiadau o agweddau ar strategaeth rheoli pryderon y CFFC

Datganiadau profiad personol

O ran canfyddiadau ynghylch agweddau penodol ar y strategaeth rheoli pryderon, roedd consensws eang bod cyflwyno datganiadau profiad personol yn ddatblygiad cadarnhaol.

Gofynnodd un person a oedd wedi mynegi pryder a fyddai pobl yn gallu cyflwyno'u datganiad dros y ffôn gan y gallai gorfod llenwi ffurflen hir rwystro rhai rhag gwneud.

Teimlai un gweithiwr proffesiynol y dylid cael fersiwn cyfatebol o hyn ar gyfer y gweithiwr fferyllol proffesiynol dan sylw fel ffordd o ddeall effaith y digwyddiad/achos arno a lefel y mewnwelediad ac adfyfrio.

Gwrandawiadau o bell

Roedd barn am y syniad o barhau â gwrandawiadau o bell wedi i'r pandemig ddod i ben yn fwy cymysg, gyda chyfranogwyr yn gweld manteision ac anfanteision. Teimlai rhai y byddai'n debygol o hwyluso'r broses a byddai hyn yn fantais sylweddol ac yn gadarnhaol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai a oedd wedi gorfod aros yn hir cyn cael penderfyniad. Roedden nhw hefyd yn teimlo y gallai gwrandawriad o bell fod yn llai brawychus na mynychu gwrandawriad yn Llundain ac yn fwy hygyrch i rai cynulleidfaoedd, er enghraifft y rhai sy'n gaeth i'r tŷ neu nad ydyn nhw'n symudol iawn.

Teimlai eraill y bydden nhw'n teimlo'n fwy abl i gyflwyno eu hochr nhw o'r stori mewn person ac y byddai'n haws cael y ffeithiau llawn/deall iaith y corff.

Addewidion gwasanaeth

Teimlai'r cyfranogwyr fod addewidion gwasanaeth arfaethedig y CFFC yn cynnwys y meysydd cywir ar y cyfan. Yn wir, roedd yr addewidion yn ymdrin â llawer o'r materion a godwyd yn ddigymell gan gyfranogwyr. Gallai sôn yn benodol am niwtraliaeth/didueddrwydd y CFFC fod yn rhywbeth oedd ar goll. Codwyd hyn gan nifer o bobl oedd wedi mynegi pryderon a deimlai fod perygl posibl o ragfarn tuag at weithwyr fferyllol proffesiynol.

Roedd un person oedd wedi mynegi pryder yn synnu nad oedden nhw ar waith cyn hyn, gan ddweud eu bod yn debycach i '*bethau'r mileniwm – 2000 yn hytrach na 2021*'. Pwysleisiwyd hefyd eu bod yn ddiystyr oni bai eu bod wedi'u gwreiddio yn niwylliant y sefydliad a'u hadlewyrchu yn realiti ymddygiad gweithwyr y CFFC.

Holodd un cyfranogwr a fyddai person llewg yn gallu deall yr iaith a ddefnyddiwyd a holodd un arall sut y byddent yn cael eu lledaenu.

Ffyrdd o gael adborth

Roedd teimlad bod adborth ar y broses gan y rhai a gymerodd ran yn werthfawr ond prin oedd yr awgrymiadau ar sut i ennyn hyn, ar wahân i ryw fath o arolwg adborth. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen rhoi sicrwydd ynghylch cyfrinachedd ac adborth di-enw ac na fyddai cyfranogwyr am roi adborth yn uniongyrchol i'r swyddog achos dan sylw.

Awgrymodd un cyfranogwr y dylid rhoi manylion cyswllt rhywun yn y CFFC y gellid cysylltu ag e pe na baent yn hapus â'r canlyniad neu os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau pellach am y broses.

